WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol



## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 101A2012

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol y rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn o gyllid a bleidleisir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron i £5.5 biliwn o'r cyllid hwn ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a grantiau penodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall drwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl yng Nghymru yn elwa o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymroddedig i nodi a lledaenu arfer da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gefnogaeth gan Stephen Martin, Karen Lees a chydweithwyr o dan gyfarwyddyd Alan Morris i gynnal yr Asesiad o Welliant ac i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Crynodeb ac argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** **4**

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd araf o ran datblygu ei drefniadau i gynorthwyo gwelliant a gwella rhai gwasanaethau 10

Mae'r Cyngor yn parhau â rheolaeth ariannol dda ac mae'n datblygu prosiectau cydweithredol, ond cynnydd araf mae wedi'i wneud o ran gwella ei drefniadau llywodraethu a threfniadau eraill 11

Cynnydd cymysg mae'r Cyngor yn ei wneud o ran gwella gwasanaethau 26

Nid yw rhai o'r gwasanaethau i gynorthwyo pobl sy'n agored i niwed ac mewn angen yn gweithio mor effeithiol ag y gallent 26

Barnodd Estyn fod gwasanaethau addysg yn ddigonol ym mis Tachwedd 2010; roedd perfformiad disgyblion yn 2011 yn dda, mae nifer y bobl NEET wedi lleihau ac mae cyfleoedd i ddysgu'n ddwyieithog wedi'u cynyddu 32

Mae allyriadau carbon a'r defnydd o ynni yn cael eu lleihau ac mae gwasanaethau gwastraff yn gwella, er bod darlun cymysg ar gyfer lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau ac ofn troseddu 36

Mae amser ac adnoddau helaeth yn cael eu defnyddio i fonitro perfformiad, ond nid yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth i gynorthwyo hunanasesu a rheoli perfformiad 39

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 43

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Wrecsam a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 44

**Atodiad 3**
Llythyr Blynyddol yr Archwilydd Penodedig i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 46

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 48

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, a'i waith ei hun, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant o gymharu â'r llynedd. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad yn ystod 2010-11, ac oni nodir fel arall, mae'n adlewyrchu'r sefyllfa ym mis Hydref 2011. Mae tair prif ran i'r adroddiad, sy'n ymdrin â sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) yn mynd ati i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant.

2 Yn ychwanegol at ei ddyletswyddau statudol, mae tair blaenoriaeth gan y Cyngor, sef:

- helpu cynyddu nifer y tai fforddiadwy;
- helpu pobl i gael addysg well a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflogaeth; a
- lleihau faint o ynni a ddefnyddir a lleihau allyriadau carbon.

3 Mae'r Cyngor hefyd wedi pennu cyfres o wyth o 'flaenoriaethau gwella' sy'n cynnwys helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, diogelu plant, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chyflawni *Rhaglen Drawsnewid* i wella effeithlonrwydd y Cyngor.

4 At ei gilydd mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad fod **y Cyngor yn gwneud cynnydd araf o ran datblygu ei drefniadau i gynorthwyo gwelliant, ac o ran gwella rhai gwasanaethau.**

5 Canfuom fod gan y Cyngor reolaeth ariannol dda o hyd ac mae'n datblygu prosiectau cydweithredol, ond cynnydd araf mae wedi'i wneud o ran gwella ei drefniadau llywodraethu a threfniadau eraill.

6 Canfuom hefyd mai cynnydd cymysg mae'r Cyngor yn ei wneud o ran gwella gwasanaethau. Fe wnaethom seilio'r casgliad hwn ar y canlynol:

- Nid yw rhai o'r gwasanaethau i gynorthwyo pobl sy'n agored i niwed ac mewn angen yn gweithio mor effeithiol ag y gallent.
- Barnodd Estyn fod gwasanaethau addysg yn ddigonol ym mis Tachwedd 2010; roedd perfformiad disgyblion yn 2011 yn dda, mae nifer y bobl NEET wedi lleihau ac mae cyfleoedd i ddysgu'n ddwyieithog wedi'u cynyddu.
- Mae allyriadau carbon a'r defnydd o ynni yn cael eu lleihau ac mae gwasanaethau gwastraff yn cael eu gwella, er bod darlun cymysg ar gyfer lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau ac ofn troseddu.

7 Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlinellu ein barnau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod amser ac adnoddau helaeth yn cael eu defnyddio i fonitro perfformiad, ond nid yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth i gynorthwyo hunanasesu a rheoli perfformiad.

8 Noda'r adroddiad y bu newidiadau diweddar i arweinyddiaeth a rheolaeth y Cyngor, gan gynnwys ethol Arweinydd newydd a phenodi Prif Weithredwr newydd. Noda hefyd y bu datblygiadau'n ddiweddar a allai gynyddu cyflymder gwelliant.

# Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

9 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i adolygu cynnydd a wneir yn unol â'r argymhellion ffurfiol a wnaeth yn ei lythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* ym mis Gorffennaf 2011. Dyma oedd yr argymhellion:

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Cyngor amlinellu trefniadau i adolygu'r prosesau craffu a phenderfynu ac i hwyluso prosesau busnes sy'n cynyddu cyflymder newid wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. |
| **A2** | Dylai'r Cyngor amlinellu sut bydd yn mynd ati i integreiddio'r prosesau ar gyfer datblygu amcanion gwella yn y dyfodol a dyrannu adnoddau iddynt fel rhan o'i broses cynllunio tymor canolig a phennu cyllideb. |

10 Gwneir y cynigion canlynol ar gyfer gwella hefyd:

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| Er mwyn cynorthwyo gwelliant pellach dylai'r Cyngor: | |
| **C1** | Bwrw ymlaen â gwaith diweddar i ddatblygu *Cynllun y Cyngor 2012-16* a mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag uchelgais, llywodraethu a rheoli perfformiad y Cyngor. |
| **C2** | Cynyddu cyflymder newid wrth fodloni'r strategaeth Adnoddau Dynol a datblygu a chynllunio'r gweithlu. |
| **C3** | Sefydlu ac ymgorffori dulliau cadarn i wneud y canlynol yn nhrefniadau'r cyngor:<br>• asesu a yw'r cyhoedd yn ei chael hi'n hawdd cael gafael ar wasanaethau'r cyngor, a gweithredu i wella hygyrchedd at wasanaethau lle bo angen;<br>• ymgysylltu â'r cyhoedd, a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cynlluniau a gwasanaethau'r cyngor yn y dyfodol; a<br>• darparu adborth prydlon i'r cyhoedd, a grwpiau penodol o gwsmeriaid lle bo'n briodol, ar ganlyniadau ymgynghoriadau cyhoeddus a'r camau a gymerwyd gan y Cyngor o ganlyniad i hynny. |
| **C4** | Adolygu ei strategaeth i ddiwallu'r angen o ran tai trwy ddarparu tai fforddiadwy, gwella ansawdd ei stoc tai a darparu cymorth i'r rheiny sy'n cyflwyno'u hunain yn bobl ddigartref. |
| **C5** | Mynd i'r afael â gwendid mewn gosod targedau, ansawdd data a rheoli perfformiad, a galluogi'r Cyngor i gynnal a chyhoeddi asesiadau cadarn o'i berfformiad. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

11 Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol gyda chymorth gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Ar dudalen 2 cewch esboniad byr o'r hyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

12 O dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, yr awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno'u gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg) ac Asiantaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi creu darlun o'r hyn mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu'r cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

13 Trwy gydol yr adroddiad, amlinellwn yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella'i wasanaethau. O gofio'r ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol i ni beidio â dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw'n gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os gwnawn gynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth ynglŷn â hwy, a byddwn yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

14 Rydym am gael gwybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r asesiad hwn wedi canolbwyntio ar y blaenoriaethau y pennodd y Cyngor iddo'i hun

15 Mae ein gwaith dros y pedair blynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor wedi cynllunio i gyflawni gwelliannau mewn gwasanaethau i drigolion, a'r cyflawniadau a wnaeth yn 2010-11. Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r cyngor. Seiliwyd y casgliadau yn yr adroddiad hwn ar ein gwybodaeth gronnus a'n gwybodaeth ar y cyd, a chanfyddiadau'r gwaith blaenoriaeth a wnaed eleni. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y meysydd y nododd y Cyngor yn rhai pwysig. Cynhwysir y rhain yng Nghynllun y Cyngor 2009-2012, sy'n amlinellu sut bydd y Cyngor yn perfformio ac yn gwella'i ddull o gyflwyno gwasanaethau. Mae hyn yn canolbwyntio'i ymdrechion ar wneud gwelliant sylweddol yn nhair blaenoriaeth y cyngor, sef:

- helpu cynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol;
- helpu pobl i gael addysg well a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflogaeth; a
- lleihau faint o ynni a ddefnyddir a lleihau allyriadau carbon.

16 Mae cyfres o 'flaenoriaethau gwella' gan y Cyngor hefyd. Mae'r rhain yn ymwneud â meysydd o strategaethau a chynlluniau presennol lle mae'r Cyngor eisiau gwelliannau mawr i ddigwydd. Mae wyth o 'flaenoriaethau gwella', ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

- helpu pobl hyn i fyw'n annibynnol;
- helpu pobl i fwyta deiet iachach a bod yn fwy gweithgar;
- ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'i wasanaethau, a hefyd gofyn i'r cyhoedd sut gellid gwella'i wasanaethau;
- hyrwyddo cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, a'r Cyngor yn hyrwyddo diwylliant Cymru;
- lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau, a helpu gwella'r canfyddiadau o droseddu;
- lleihau gwastraff trwy gynyddu'r gyfradd ailgylchu;
- cyflawni'r *Rhaglen Trawsnewid*; a
- gwella diogelu plant (ychwanegwyd ar gyfer y flwyddyn 2010-11).

17 O'u cymryd ynghyd, blaenoriaethau'r Cyngor a'i flaenoriaethau gwella yw amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11.

18 Yn ogystal ag edrych ar gynlluniau'r Cyngor a'i berfformiad ei hun, rydym hefyd wedi edrych ar ba mor dda mae'r Cyngor yn deall ei berfformiad. Mae'n bwysig i'r Cyngor fod â hunanddealltwriaeth dda o ba mor effeithiol ydyw ac i ba raddau mae'n gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol ynghyd ag arolygiaethau eraill, Llywodraeth Cymru a chynghorau wrthi'n datblygu dealltwriaeth gyffredin o hunanwerthuso effeithiol, ac rydym wedi cynnig sylwadau manylach ar hunanwerthuso yn y Cyngor nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Canfuom fod amser ac adnoddau helaeth yn cael eu defnyddio i fonitro perfformiad, ond nid yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth i gynorthwyo hunanasesu a rheoli *perfformiad. Cynllun y Cyngor - Rhan 3 Ffocws ar ein Perfformiad 2010 i 2011* yw'r adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer y Cyngor a chyfeiriwn yn yr adroddiad at asesiadau'r Cyngor ei hun o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, nodwn fod gwendidau sylweddol, gan gynnwys diffyg mesurau llwyddiant addas ar gyfer rhai amcanion, yn lleihau effeithiolrwydd yr adroddiad hwn.

## Datblygiadau yn y Cyngor ers fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf

19 Mae'r Cyngor wedi gweld nifer o newidiadau arwyddocaol ymhlith ei uwch reolwyr dros y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaeth y Prif Weithredwr ymddiswyddo a gadawodd y Cyngor ym mis Chwefror 2011. Rhoddwyd trefniadau interim ar waith wedyn, gyda'r tri chyfarwyddwr strategol a pherfformiad yn cyflawni rolau'r Prif Weithredwr Dros Dro, hyd nes i'r Prif Weithredwr newydd, Dr Helen Paterson, ymgymryd â'r swydd ym mis Medi 2011.

20 Ym mis Mai 2011, etholwyd y Cynghorydd Ron Davies yn Arweinydd gan ddisodli'r Cynghorydd Aled Roberts a gafodd ei ethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel Aelod Cynulliad Rhanbarthol. Etholwyd y Cynghorydd David Bithell yn Ddirprwy Arweinydd.

21 Fe wnaeth y Cyngor wahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ymgymryd ag *Adolygiad Ariannol gan Gymheiriaid*, a chynhaliwyd hwn ym mis Mawrth 2011. Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2011 ac mae wrthi'n gweithio drwy'r argymhellion ar gyfer gwella.

22 Ym mis Tachwedd 2010, bu Estyn, yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn arolygu gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau'r arolygiad ym mharagraffau 110-114.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd araf o ran datblygu ei drefniadau i gynorthwyo gwelliant a gwella rhai gwasanaethau

23 At ei gilydd daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod y Cyngor yn symud ymlaen yn arafach na'r disgwyl o ran datblygu ei drefniadau i gynorthwyo gwelliant a gwella rhai gwasanaethau.

24 Mae tair prif ran i'r adroddiad, sy'n ymdrin â sut mae'r Cyngor yn mynd ati i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant.

# Mae'r Cyngor yn parhau â rheolaeth ariannol dda ac mae'n datblygu prosiectau cydweithredol, ond cynnydd araf mae wedi'i wneud o ran gwella ei drefniadau llywodraethu a threfniadau eraill

25 Mae'r adran hon yn cynnig sylwadau ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio, ac i sicrhau gwelliannau. Mae hyn hefyd yn cynnwys agweddau ar ddau o amcanion gwella'r Cyngor:

- ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'i wasanaethau a gwrando ar sut gellid gwella'i wasanaethau; a
- chyflawni'r prosiect trawsnewid, er mwyn lleihau costau a gwneud y Cyngor yn fwy effeithlon.

26. Y testunau yr ymdrinnir â hwy yn yr adran hon yw:

- canfyddiadau blaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y trefniadau ar gyfer gwella;
- llywodraethu, gan gynnwys gwneud penderfyniadau a threfniadau craffu;
- Adnoddau Dynol a chynllunio'r gweithlu;
- mesurau deilliannau i ddangos bod y Cyngor yn cyflawni'i nodau;
- y defnydd o adnoddau a threfniadau i fynd i'r afael â'r heriau ariannol a wynebir gan bob cyngor;
- sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau lleol;
- mynediad i wasanaethau;
- trefniadau'r Cyngor i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010;
- trefniadau ar gyfer cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth â chynghorau a chyrff eraill;
- cynnydd sydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella mewn adroddiadau blaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol; a
- datblygiadau diweddar yn dilyn penodi'r Prif Weithredwr newydd.

**Ym mis Gorffennaf 2011, adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi parhau i geisio gwella gyda chymorth fframwaith polisi clir a sefyllfa ariannol gadarn, ond nid yw rhai o'i drefniadau'n cefnogi gwelliant yn llawn, ac maent yn debygol o rwystro'r Cyngor rhag cyflawni'i ddyheadau**

27 Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* i'r Cyngor. Daeth i'r casgliad fod 'y Cyngor wedi parhau i geisio gwella gyda chymorth fframwaith polisi clir a sefyllfa ariannol gadarn, ond nid yw rhai o'i drefniadau'n cefnogi gwelliant yn llawn, ac maent yn debygol o rwystro'r Cyngor rhag cyflawni'i ddyheadau'. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn fodlon fod y Cyngor yn cyflawni'i ddyletswyddau o dan y Mesur, a'i fod yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion sylfaenol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gwneud y cynnydd disgwyliedig mewn meysydd a nodwyd i'w gwella'n flaenorol. Daeth i'r casgliad hwn oherwydd:

- Cynnydd cyfyngedig sydd wedi'i wneud ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn yr *Asesiad Corfforaethol Rhagarweinio*l yn 2010.
- Mae'r Cyngor mewn lle da i reoli'r her ariannol trwy raglenni arbedion a'r prosiectau 'trawsnewid'. Fodd bynnag, mae'n llai clir ynglŷn ag a fydd yn gallu cyflawni nodau ei amcanion gwella.
- Er bod rhai enghreifftiau cadarnhaol o ymgynghori, nid yw dull y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd yn dilyn methodoleg gydlynus ar draws y

gwasanaethau. Nid yw'r Cyngor yn defnyddio gwerthuso o ymgynghori yn gyson i wella effeithiolrwydd ei ddull o gyflwyno gwasanaethau na'r modd y mae'n mynd ati i ymgynghori â'r cyhoedd.

**Mae'r Cyngor yn ystyried pa un ai i wneud newidiadau i'w drefniadau llywodraethu, nad ydynt yn gweithio mor effeithiol ag y gallent**

28 Rydym wedi mynegi pryder o'r blaen ynglŷn â threfniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys ei brosesau penderfynu, craffu a monitro perfformiad. Dywedom fod y trefniadau'n drafferthus, yn orgymhleth ac yn feichus o ran amser. Nid oedd aelodau arweiniol yn cyflawni'u rolau'n llawn yn unol â'r hyn a ddisgrifiwyd yng nghyfansoddiad y Cyngor. Nododd arolygiad Estyn o wasanaethau addysg yn 2010 yr angen i aelodau arweiniol gweithredol gymryd rolau cadarnach wrth arwain eu meysydd, yn hytrach na dibynnu ar swyddogion. Fe wnaeth yr *Adolygiad Ariannol gan Gymheiriaid* gan CLlLC fynegi pryderon tebyg hefyd.

29 Ym mis Awst 2010, roedd *Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol* yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys cynnig ar gyfer gwella y dylai'r Cyngor sicrhau bod rolau aelodau'r Bwrdd Gweithredol a rolau craffu yn cefnogi proses benderfynu effeithiol ac yn galluogi i'r broses craffu ganolbwyntio ar faterion blaenoriaeth. Gan nad arweiniodd hyn at newid, fe wnaethom argymhelliad ffurfiol yn y llythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* ym mis Gorffennaf 2011. Dywedodd hwn y dylai'r Cyngor 'amlinellu trefniadau i adolygu'r prosesau craffu a phenderfynu, a hwyluso prosesau busnes sy'n cynyddu cyflymder newid wrth fynd i'r afael â'r materion hyn'.

30 Roedd yn ofynnol i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad o fewn 30 diwrnod, ac yn ei ymateb nododd y Cyngor fod rhai aelodau etholedig wedi codi pryderon cryf ynglŷn â'r sail dystiolaeth ar gyfer yr argymhelliad. Fodd bynnag, aeth y Cyngor ati i sefydlu grŵp bychan i ymchwilio i ddulliau amgen o weithio. Dywedodd yr ymateb y byddai gweithdai'n cael eu cynnal gyda CLlLC i archwilio canfyddiadau'r adolygiad cymheiriaid, ac y byddai unrhyw gynigion o'r adolygiad yn cael eu hystyried yn ffurfiol gan aelodau ym mis Mehefin 2012.

31 Canfu ein gwaith diweddar fod yr adolygiad yn mynd yn ei flaen. Cafodd y Prif Weithredwr newydd drafodaeth lafar gydag aelodau'r Bwrdd Gweithredol ynglŷn â'u rôl. Canfuom hefyd, er bod y rhan fwyaf o fusnes y cyngor yn cael ei gynnal mewn modd rhesymol, fod y materion canlynol yn parhau:

- Mae trefniadau'n gymhleth ac yn feichus o ran amser. Mae'r broses rheoli perfformiad yn drafferthus ac yn cynnwys nifer o gamau, ac mae hynny'n mynd â llawer o amser swyddogion ac yn arwain at bwyllgorau a byrddau'n derbyn mathau gwahanol o wybodaeth.
- Nid yw gwaith y Bwrdd Gweithredol yn cynnwys digon o ffocws. Gall yr amser a dreulia'r Bwrdd Gweithredol yn trafod a gwneud penderfyniadau allweddol fod yn fyr yn aml, ond weithiau maent yn treulio cyfnod anghymesur o amser ar faterion ag iddynt effaith is.
- Mae pwyllgorau craffu'n tueddu dal swyddogion i gyfrif, nid aelodau arweiniol na'r Bwrdd Gweithredol. Gall hyn arwain at wneud pethau'n aneglur rhwng cyfrifoldebau swyddogion a materion gwleidyddol.

- Gall ymddygiad rhai aelodau tuag at swyddogion fod yn llawdrwm ar brydiau. O ganlyniad, mae rhai swyddogion yn ochelgar rhag cael eu dal i gyfrif mewn modd braidd yn llym, ac mae hyn yn cyfrannu at duedd am i lawr o osod targedau isel fel nad yw perfformiad yn cael ei feirniadu'n ormodol.

32 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, aelodau arweiniol, cadeiryddion craffu ac aelodau craffu. Fodd bynnag, rydym wedi canfod nad oedd yr adrannau canlynol yn cael eu dilyn yn gyson:

- dylai pwyllgorau craffu ddal y Bwrdd Gweithredol i gyfrif, gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau gweithredol, a herio penderfyniadau amhriodol;
- dylai aelodau arweiniol fod yn atebol am ddewisiadau gwleidyddol a pherfformiad yn y rôl arweiniol, ac ymddangos gerbron pwyllgorau craffu mewn perthynas â materion o fewn y rôl arweiniol; a
- dylai pob aelod etholedig gefnogi, ac ymlynu wrth berthnasoedd parchus, priodol ac effeithiol gyda chyflogeion y Cyngor.

33 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu fel rhan o'r gwaith sy'n arwain at ei *Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol*. Mae hyn yn rhoi cyfle ychwanegol i'r Cyngor ystyried y trefniadau a diwygio fel bo'n briodol.

**Mae rheoli adnoddau dynol yn parhau'n faes risg, ac er bod cynnydd wedi'i wneud, nid yw cyflymder y newid wedi bod yn ddigonol**

34 Yn ein *Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol* ym mis Awst 2010 dywedom fod rheoli pobl yn faes risg ac nad oedd cynllunio'r gweithlu wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Roedd y Cyngor wrthi'n datblygu cynllun i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Yn y llythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* ym mis Gorffennaf 2011, nodom fod cynnydd wedi'i wneud o ran ailstrwythuro'r swyddogaeth Adnoddau Dynol, er bod y Cyngor wedi cydnabod fod llawer o waith i'w wneud eto i foderneiddio'r gwasanaeth Adnoddau Dynol a chyflwyno cynllunio'r gweithlu ar draws y Cyngor.

35 Canfu ein gwaith diweddar fod y gwaith o ailstrwythuro'r gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi'i gwblhau. Roedd swydd y Prif Swyddog Adnoddau Dynol wedi'i dileu fel rhan o adolygiad ehangach o uwch reolaeth. Mae gan rôl newydd y Pennaeth Corfforaethol a Gwasanaethau Cwsmeriaid gyfrifoldeb am y swyddogaeth Adnoddau Dynol ac am wasanaethau cyfreithiol, TGCh, gwasanaethau pwyllgorau ac aelodau, cymorth swyddfa ac am fynediad i wasanaethau. Collwyd pump o swyddi gwasanaeth Adnoddau Dynol eraill wrth ailstrwythuro'r gwasanaeth, er bod y swyddogion a oedd ar ôl bellach wedi'u cydleoli yn yr un adeilad.

36 Mae strategaeth Adnoddau Dynol gan y Cyngor ar waith am ddwy flynedd, sy'n cwmpasu 2010-2012. Cafwyd cynnydd ar y rhan fwyaf o'r camau gweithredu sydd i'w cwblhau yn y flwyddyn gyntaf, er i ychydig o

dan hanner ohonynt gael eu dwyn ymlaen i'w cwblhau ym mlwyddyn dau. O ganlyniad, fe all y Cyngor ei chael hi'n anodd cyflawni'r holl waith a gynlluniwyd. Mae hyn yn effeithio ar ba mor dda mae'r Cyngor yn gallu cefnogi, rheoli a gwneud y defnydd gorau o'i gyflogeion.

37 Mae'r Cyngor wedi penderfynu peidio ag ymgymryd ag arolygon staff pellach. Yn lle hynny, bydd adrannau'n mynd ati ar wahân i fesur barnau a safbwyntiau eu staff. Fe all y dull cyfnodol hwn arwain at golli gwybodaeth gorfforaethol werthfawr i'r Cyngor, gan na fydd yn clywed pryderon staff ynglŷn â gweithio i'r Cyngor. Gall hefyd golli ffynhonnell adborth dda ar sut mae'n gweithredu a sut gallai wella, gan fod y ffocws yn ymwneud ag adrannau'n fewnol. Bydd y Cyngor, fodd bynnag, yn parhau i gynnal ymgynghoriadau gyda'r holl staff ar faterion penodol. Cynhaliwyd arolygon yn ddiweddar yn ymwneud â threfniadau teithio staff a lleihau carbon.

38 Mae rhan o'r gwaith o ailstrwythuro'r gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi cynnwys trosglwyddo rhai cyfrifoldebau i adrannau eraill yn y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant corfforaethol, cydraddoldebau, ac iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, canfuom fod cyfathrebu gwael rhwng y gwasanaeth Adnoddau Dynol a'r adrannau sydd bellach yn gyfrifol am y meysydd hyn.

39 Nid yw'r Cyngor yn mynd ati eto i gynllunio'r gweithlu ar draws pob adran. Mae rhywfaint o waith cychwynnol wedi'i gynllunio yn y dyfodol agos i gasglu gwybodaeth am bwysau yn y dyfodol ar ofynion gweithlu. Mae hyn yn gadael y Cyngor heb ddealltwriaeth gadarn o ba sgiliau sydd ganddo ar hyn o bryd, a pha sgiliau fydd eu hangen arno i gyflwyno gwasanaethau effeithlon o ansawdd uchel yn y dyfodol

40 Yn ei gofrestr prif risgiau, mae'r Cyngor wedi nodi nad yw'r capasiti a'r sgiliau iawn ganddo i gyflawni ei flaenoriaethau ac i fodloni'i gyfrifoldebau statudol fel un o'r 10 risg uchaf ar gyfer y sefydliad. Y camau gweithredu a nodwyd i leihau'r risg hon yw'r strategaeth Adnoddau Dynol a gweithredu asesiadau strategol a chynlluniau gweithlu. Am fod y gwaith o gyflawni'r strategaeth ar ei hôl hi, ac na fydd cynlluniau'r gweithlu wedi'u cwblhau hyd nes 2013, mae cyflawni'r gwelliannau hyn yn parhau'n faes risg sylweddol.

41 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud eto i foderneiddio'r gwasanaeth Adnoddau Dynol ac i gyflwyno cynlluniau gweithlu cadarn ac ystyrlon ar draws y Cyngor. Mae'r Prif Weithredwr newydd yn cydnabod yr angen i wneud gwaith pellach, a bydd hyn yn rhan o'r strategaeth Adnoddau Dynol newydd a fydd yn cael ei datblygu yn 2012.

**Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd yn 2011, nid oes cyfres lawn o fesurau deilliannau gan y Cyngor o hyd i'w alluogi i fonitro a rheoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion gwella**

42 Rydym wedi adrodd yn flaenorol i'r Cyngor nad oes ganddo gyfres lawn o fesurau deilliannau priodol a fydd yn galluogi mesur ei gynnydd tuag at gyflawni'i amcanion. Y rheswm am hyn yw bod y Cyngor yn canolbwyntio llawer o'i waith rheoli perfformiad ar ba un a yw tasgau wedi'u cwblhau, yn hytrach nag adolygu'r effaith mae'r Cyngor wedi'i chael ar bobl Wrecsam. Ym mis Gorffennaf 2010, gwnaethom

gynnig ar gyfer gwella i'r Cyngor ddatblygu ymhellach fesurau deilliannau priodol ar gyfer amcanion. Gan na weithredwyd hyn yn llawn, ym mis Gorffennaf 2011, gwnaethom gynnig arall ar gyfer gwella. Cynigiom y dylai'r Cyngor gwblhau'r gwaith o ddatblygu mesurau deilliannau ar gyfer ei flaenoriaethau gwella, a defnyddio adrodd am berfformiad i dynnu sylw at gynnydd o ran cyflawni deilliannau.

43 Yn hanner cyntaf 2011, ymgymerodd y Cyngor ag ychydig o waith i edrych ar sut i ddatblygu mesurau deilliannau priodol. Yn ystod yr haf a'r hydref, mae'r Cyngor wedi mynd â'r gwaith hwn ymhellach, ac wedi nodi mesurau deilliannau ar gyfer amcan diwygiedig ynglŷn ag addysg (gweler paragraffau 120-121). Fodd bynnag, mae diffyg mesurau a data cadarn am ddeilliannau ar gyfer rhai amcanion gwella eraill o hyd. Mae'r amcanion gwella hyn yn cynnwys: cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu'n ddwyieithog; lleihau ofn troseddu; ac effaith bwyta'n iach a bod yn fwy gweithgar.

44 Mae'r Cyngor bellach yn ei flwyddyn olaf o'i amcanion 2009-2012. Bydd yn bwysig wrth iddo nodi'i amcanion newydd ar gyfer 2012 ymlaen ei fod yn diffinio'n glir beth yw'r deilliannau mae am geisio'u cyflawni, a'r mesurau a fydd yn cael eu defnyddio i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau hynny.

**Mae'r Cyngor yn parhau â rheolaeth ariannol dda ac mae'n gweithredu i wella cynllunio ariannol tymor canolig ac i gynyddu momentwm y Rhaglen Drawsnewid i foderneiddio'r ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu**

45 Yn y *llythyr Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* ym mis Gorffennaf 2011, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod 'y Cyngor mewn lle da i reoli'r her ariannol trwy raglenni arbedion a'r prosiectau trawsnewid. Fodd bynnag, mae'n llai clir ynglŷn ag a fydd yn gallu cyflawni nodau ei amcanion gwella.' Gwnaed argymhelliad ffurfiol i'r Cyngor 'amlinellu sut bydd yn mynd ati i integreiddio'r prosesau ar gyfer datblygu amcanion gwella yn y dyfodol a dyrannu adnoddau iddynt fel rhan o'i broses cynllunio tymor canolig a phennu cyllideb'.

46 Mae'r Cyngor yn parhau i ddangos rheolaeth ariannol gref. Cyflawnodd y Cyngor arbedion sylweddol yn 2010-11 a chyfrannodd hyn a chyllid hwyr gan Lywodraeth Cymru at danwario cyffredinol cymeradwy dwyn gwasanaethau yn eu blaen a throsglwyddiadau i gronfeydd a glustnodwyd o £3.4 miliwn. Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran sicrhau'r arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2011-12. Daw'r arbedion hyn o arbedion adrannol yn bennaf, fel rheoli swyddi gweigion.

47 Ar 30 Medi 2011, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor. Nododd fod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi i safon dda yn gyffredinol erbyn y terfyn amser statudol, gan adlewyrchu'r gwaith helaeth iawn a wnaed gan staff y Tîm Cyllid i'w paratoi ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

48 Mae gan y Cyngor broses sefydledig ar gyfer pennu cyllideb sy'n dyrannu cyllidebau ar sail cyllideb y flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd ar gyfer chwyddiant, ac ar gyfer pwysau y mae'n gwybod amdanynt. Caiff arbedion ac arbedion effeithlonrwydd eu nodi hefyd, a'u hymgorffori yn y gyllideb. Wrth nodi pwysau a gwneud arbedion, caiff blaenoriaethau'r Cyngor eu hystyried. Mae aelodau wedi bod cyfranogi'n weithredol ym mhroses pennu cyllideb y Cyngor, ac maent wedi cael cyfleoedd da i gyfrannu. Fodd bynnag, nid yw cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn nodi'r adnoddau sydd wedi'u cymhwyso i'w flaenoriaethau, a sut y disgwylir i'r rhain gael eu newid dros gyfnod tymor canolig o dair neu bedair blynedd. Roedd yr *Adolygiad Ariannol gan Gymheiriaid* CLILC yn adlewyrchu pryderon yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r angen i nodi adnoddau ar gyfer blaenoriaethau polisi.

49 Yn ei ymateb i'n hargymhelliad i ddyrannu adnoddau ar gyfer amcanion gwella trwy brosesau cynllunio a phennu cyllideb tymor canolig, nododd y Cyngor nad yw cyllidebau'n syml yn cael eu treiglo ymlaen ar sail chwyddiant a bod newidiadau'n cael eu gwneud drwy bwysau ar wasanaethau, arbedion, a dyraniadau chwyddiannol i sicrhau ffocws ar flaenoriaethau. Mae'r Cyngor yn dilyn ei gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae hyn yn cynnwys: pennu'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu i flaenoriaethau cyfredol; craffu ar arbedion arfaethedig er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg; ac y bydd y cyllid a ddarparwyd ar gyfer blaenoriaethau yn cael ei amlinellu wrth gynllunio a phennu cyllideb 2012-13. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes pwysig hwn.

50 Bwriadwyd i *Raglen Trawsnewid* y Cyngor i foderneiddio'r ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r 'amgylcheddau ariannol, technolegol a chwsmeriaid y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt'. Cytunwyd y rhaglen ar ddechrau 2010 yn y lle cyntaf, a'i nod yw cyfrannu at yr arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd sydd eu hangen trwy raglen o brosiectau. Roedd y prosiectau'n cynnwys materion fel caffael, cysylltiadau cwsmeriaid, trafnidiaeth, adeiladau swyddfa, rheoli cyfleusterau, a dylunio ac argraffu. Sefydlwyd 'Cronfa Newid Trawsnewid' o £1 filiwn y flwyddyn i gefnogi'r rhaglen. Nodwyd arbedion cychwynnol sylweddol drwy adolygiadau adrannol a gynhaliwyd fel rhan o broses pennu cyllideb 2011-12 ac mae'r camau gweithredu parhaus o hyn wedi'u hymgorffori yn y *Rhaglen Trawsnewid*. Disgwylia'r Cyngor y bydd yn cyflawni ychydig o arbedion yn ystod 2011-12 o'r prosiectau trawsnewid, a disgwylir y bydd y prosiectau a'r adolygiadau o wasanaethau'n cyfrannu rhyw £3.5 miliwn o arbedion yn 2012-13 ac arbedion pellach yn y blynyddoedd sy'n dilyn.

51 Cydnabuwyd cyflawni'r gwaith trawsnewid yn llwyddiannus fel 'mater rheoli mewnol arwyddocaol' yn y *Datganiad Llywodraethu Blynyddol* ar gyfer 2010-11, ac fe'i nodwyd un o'r 10 risg uchaf sy'n wynebu'r Cyngor. Dywedodd *Adolygiad Ariannol gan Gymheiriaid* CLILC fod angen i'r Rhaglen Drawsnewid gael ei hintegreiddio yng ngwaith y Cyngor, yn hytrach na chael ei gweld yn brosiect annibynnol. Mewn ymateb, aeth y Cyngor ati i archwilio'r rhaglen ac mae wedi cytuno i newidiadau i'r rhaglen gyda'r bwriad o:

- wneud newid yn y Cyngor yn rhan o'i ffordd o fyw yn hytrach nag yn rhywbeth ychwanegol;
- parhau i ddatblygu prosiectau ar draws ffiniau gwasanaethau;
- creu ymagwedd at newid sy'n galluogi rheoli mwy o brosiectau o dan un ymbarél;
- cynyddu cyflymder newid, codi lefel uchelgais a gallu ysgogi cyflawni meysydd blaenoriaeth 2012-2016 a gwneud yn siŵr bod ffocws cadarn yn parhau ar gyflawni; a
- chyflwyno asesiadau strategol fel yr asgwrn cefn i gyfnod dau y *Rhaglen Trawsnewid.*

**Er bod rhai enghreifftiau cadarnhaol o ymgynghori, nid yw dull y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd yn dilyn methodoleg gydlynus ar draws y gwasanaethau**

52 Yn y llythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* ym mis Gorffennaf 2011, adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol ganfyddiadau o'i adolygiad o ymgysylltiad â'r cyhoedd yn y Cyngor. Roedd yr adolygiad hwn yn rhan o astudiaeth Cymru gyfan a fydd yn arwain at adroddiad ar brosesau ymgysylltu â'r cyhoedd gan gynghorau yng Nghymru, i'w gyhoeddi ar ddechrau 2012. Yn Wrecsam, canfu fod rhai enghreifftiau cadarnhaol o ymgysylltu â'r cyhoedd, ond nad oedd y Cyngor yn dilyn methodoleg gyson nac yn defnyddio gwerthuso i wella effeithiolrwydd ei ddull o ymgynghori â'r cyhoedd. Cynigiodd yr adolygiad y dylai'r Cyngor ddatblygu dull mwy cydlynus.

53 Un o amcanion gwella'r Cyngor yw gwella mynediad i wasanaethau a gwrando ar y cyhoedd ac ymgysylltu â hwy wrth ddylanwadu ar wasanaethau. Mae rhai enghreifftiau da o wasanaethau unigol cynghorau sy'n ymgysylltu'n dda â'r cyhoedd. Mae trefniadau effeithiol gan yr Adran Tai ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid, ac rydym wedi defnyddio'r rhain fel enghraifft o arfer da ar ein gwefan Cyfnewid Arfer Da – www.wao.gov.uk/cymraeg/goodpractice/1488.asp . Mae'r gwasanaethau cymdeithasol plant yn ymgysylltu'n dda â phobl ifanc hefyd, drwy amrywiaeth o ddulliau sy'n cynnwys Fforwm Ieuenctid Sirol Wrecsam, gwefan 'Wrecsam Ifanc', a datblygu cynulliad pobl ifanc o'r enw 'Senedd Yr Ifanc'.

54 Fodd bynnag, nid oes unrhyw uwch arweinyddiaeth glir ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd. Nid yw ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei ystyried yn faes blaenoriaeth i'r Cyngor, er ei fod yn elfen allweddol sy'n ei helpu i gyflawni'i amcanion gwella. Nid oes strategaeth effeithiol gan y Cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r dulliau a ddefnyddir wedi'u cyfyngu'n aml i arolygon neu grwpiau ffocws, ac mae risg ailadrodd ymgysylltu oherwydd diffyg cydlynu. Gall hyn roi'r argraff i'r cyhoedd fod y Cyngor yn gweithio mewn seilos ac yn debygol o fynd i fwy o gostau.

55 Tystiolaeth gyfyngedig sydd o ddull cyson o werthuso a mynd ati'n effeithiol i ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd ar draws y Cyngor. Nid oes tystiolaeth ychwaith fod y Cyngor yn dysgu o offer a thechnegau gwahanol i ddod o hyd i'r dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu flwyddyn ar ôl blwyddyn, neu i rannu arfer da rhwng adrannau.

56 Yn ei ymateb i'r cynnig yn y llythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* i ddatblygu dull mwy cydlynus, dywedodd y Cyngor y byddai'n nodi uwch swyddog ar gyfer ymgysylltu ac yn paratoi adroddiad ar y dewisiadau strategol ar gyfer ymgysylltu'n well. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn monitro cynnydd yn y maes hwn.

**Mae'r Cyngor wedi cynyddu'r dewisiadau sydd ar gael i gwsmeriaid ddefnyddio'i wasanaethau, ond nid yw wedi mesur a yw trigolion yn ei chael hi'n hawdd mynd at wasanaethau a gwneud awgrymiadau am welliannau iddynt**

57 Mae gan y Cyngor amcan gwella i wella mynediad cwsmeriaid i'w wasanaethau, a gofyn am eu barnau am wasanaethau, ac wedyn defnyddio hyn i'w gwella. Rydym wedi adrodd o'r blaen fod y Cyngor wedi datblygu gwefan sy'n fwy hwylus i'w defnyddio, wedi agor canolfan gyswllt newydd o'r enw Galw Wrecsam, ac wedi datblygu ei bresenoldeb ar-lein drwy ddefnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol i ledaenu gwybodaeth. Fel rhan i'i waith i leihau costau, mae'r Cyngor hefyd yn ceisio symud pobl o gyswllt wyneb yn wyneb i ddulliau o ryngweithio â'r Cyngor sy'n llai costus, fel y ffôn neu'r wefan.

58 Yn 2010-11, gwnaeth y Cyngor gynnydd pellach o ran hygyrchedd i wasanaethau, drwy:

- gynyddu'r cyfleoedd i bobl dalu am chwe gwasanaeth arall gan y cyngor drwy ei wefan;
- parhau i gynnig ystod o wasanaethau drwy Galw Wrecsam;
- delio â mwy o alwadau ffôn yn ystod y cyswllt cyntaf, sy'n lleihau'r angen i bobl gysylltu â'r Cyngor nifer o weithiau ynglŷn â'r un mater; a
- darparu cyfleusterau yn llyfrgell Rhiwabon ar ei newydd wedd i bobl dalu am wasanaethau'r cyngor drwy ddefnyddio ciosg talu awtomataidd, neu i gysylltu â'r Cyngor drwy wasanaeth rhadffôn.

59 Fodd bynnag, er bod y Cyngor am leihau nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb â chwsmeriaid, yn dilyn cau rhai swyddfeydd lleol lle gallai trigolion wneud taliadau ag arian parod, fe wnaeth nifer yr ymweliadau â Galw Wrecsam yng nghanol tref Wrecsam gynyddu o draean yn 2010-11. O ganlyniad, fe wnaeth y Cyngor gynyddu nifer y staff a oedd ar gael i helpu pobl gyda'u hymweliadau â'r ganolfan.

60 Yn ei adroddiad perfformiad blynyddol, fe wnaeth y Cyngor asesu ei fod yn gweithredu'n unol â'r cynllun i gyflawni'r amcan gwella hwn yn ystod 2010-11. Erbyn canol 2011-12, adroddodd ei fod ychydig ar ei hôl hi yn dilyn methiant i gyflawni ei darged bodlonrwydd i ddefnyddwyr ei ganolfan gyswllt, a gostyngiad yn y lefel bodlonrwydd â'i wefan, er bod y lefel bodlonrwydd â'r wefan yn dal uwchlaw'r cyfartaledd.

61 Drwy ein gwaith rydym wedi canfod er bod y Cyngor yn gallu monitro'r camau mae wedi'u cymryd, nid yw'r mesurau ganddo i nodi a yw'n cyflawni'i nodau. Adroddom ar y mater hwn yn ei *Hadroddiad Gwella Blynyddol* blaenorol. Dywed dogfennau'r Cyngor 'os ydym yn llwyddiannus, bydd pobl yn dweud wrthym ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r Cyngor a dod o hyd i'r gwasanaethau maent yn chwilio amdanynt. Bydd pobl yn dweud wrthym hefyd eu bod yn cael safon gwasanaeth da gan y Cyngor,

a'u bod yn teimlo bod y Cyngor yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt.' Nid oes gan y Cyngor fesurau, neu nid yw'n adrodd, a yw pobl yn ei chael hi'n haws cysylltu, yn gallu dod o hyd i'r gwasanaethau maent eu heisiau, neu'n teimlo a yw'r Cyngor yn gwrando ac yn ymateb iddynt. Caiff gwybodaeth fonitro ei chasglu a'i hadrodd am fodlonrwydd y rheiny sy'n cysylltu â'r Cyngor dros y ffôn, drwy'r wefan, neu drwy'r cyswllt wyneb yn wyneb sydd ganddynt, ond nid yw hynny'n llwyddo i roi gwybod i'r Cyngor yn llawn a yw'n cyflawni'i amcan.

62 Er bod Galw Wrecsam yn elfen allweddol o'r cynllun i wella mynediad i wasanaethau, mae'r arwyddion at y dderbynfa yn wael, nid oes thema glir i'r llenyddiaeth mae'n ei harddangos, ac nid yw'n targedu'r grwpiau cleientiaid sy'n defnyddio'i wasanaethau'n bennaf. Mae'r ganolfan gyswllt yn cynnwys nifer o ystafelloedd cyfweld. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n fynych yn ystod y dydd, ac os yw'r Cyngor yn cynllunio i ehangu'r ystod gwasanaethau o'i ganolfan, bydd angen iddo ailystyried argaeledd yr ystafelloedd cyfweld.

63 Mae'r Cyngor wedi datblygu ystod da o wybodaeth ar y we ar gyfer rhai meysydd blaenoriaeth, fel lleihau gwastraff ac ailgylchu. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r wybodaeth yn ardaloedd derbynfa'r Cyngor flwyddyn ar ei hôl hi.

64 Nododd adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon i'r Cyngor y bu cynnydd bach yn nifer y cwynion i'w swyddfa, er bod hyn islaw'r lefel gyfartalog o gŵynion ar gyfer y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru. Bu gostyngiad mawr yn nifer y cwynion y penderfynodd y swyddfa ymchwilio iddynt wedi hynny, er bod y gyfran yr ymchwiliwyd iddynt uwchlaw'r cyfartaledd y byddid yn disgwyl. Dywedodd yr Ombwdsmon ei fod yn siomedig o nodi fod yr holl ymatebion i'w swyddfa wedi'u derbyn dros bum wythnos ar ôl gofyn amdanynt gan y Cyngor, a gofynnodd i'r Cyngor gymryd camau priodol i ddatrys hyn. O gofio fod gwrando ar bobl a chynyddu mynediad yn amcan gwella, byddech yn disgwyl i'r Cyngor ddelio ag ymholiadau'r Ombwdsmon yn brydlon, fel rhan o wasanaeth da i'w drigolion.

65 Rydym eisoes wedi disgrifio diffygion dull y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd uchod. Ni soniodd y Cyngor am y rhain yn ei adroddiad perfformiad blynyddol, er bod gofyn am farnau cwsmeriaid a'u defnyddio i wella gwasanaethau yn rhan o amcan gwella'r Cyngor.

66 Mae adroddiad perfformiad blynyddol y Cyngor, fodd bynnag, yn amlinellu cynlluniau i symud y panel arolwg dinasyddion Llais y Bobl i fod yn banel ar-lein. Cred y Cyngor y bydd hyn yn gwella cyflymder, gwerth ac effaith arolygon yn y dyfodol. Fodd bynnag, dangosodd ei arolwg o'r panel presennol i bobl yn 2010 fod 80 y cant o ymatebwyr yn ffafrio'r dull presennol o gael arolygon neu holiaduron drwy'r post, a byddai gan lai na hanner ddiddordeb mewn arolygon ar-lein. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod ei arolygon newydd ar-lein yn gynrychiolaeth ddilys o'i gwsmeriaid.

67 Mae angen gwelliannau yn nhudalennau gwe'r Cyngor ar ymgynghoriadau, yn enwedig os yw'r Cyngor yn cynllunio i symud at arolygon ar-lein. Mae ei dudalennau gwe sy'n rhestru ymgynghoriadau 'cyfredol' yn cynnwys llawer o arolygon hŷn lle mae'r dyddiad cau wedi mynd heibio. Mae hyn yn ddryslyd i bobl sy'n ymweld â'r safle. Hefyd, mae tudalennau gwe sy'n cynnwys gwybodaeth

gryno am ymgynghoriadau blaenorol. Nid yw'r rhain bob amser yn cynnwys manylion pa bryd y cynhaliwyd yr arolygon, ac nid oes gwybodaeth wedi'i chynnwys am ba gamau, os o gwbl, y mae'r Cyngor wedi'u cymryd o ganlyniad i'r adborth.

68 Mae AGGCC yn darparu adolygiad a gwerthusiad blynyddol o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol pob cyngor. Nododd yr adolygiad ar gyfer Wrecsam yn 2010-11 fel a ganlyn:

- 'Ac eithrio pobl sy'n cael eu cyfeirio at Hawliau Lles, nid oes mecanweithiau effeithiol gan y Cyngor ar hyn o bryd i gasglu adborth gan bobl sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau neu sefydliadau eraill, ynglŷn ag a lwyddwyd i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r Cyngor wrthi'n archwilio'i ddewisiadau i reoli'r wybodaeth bwysig hon yn effeithiol. Bydd cynnydd yn y maes hwn yn cael ei fonitro gan AGGCC dros y misoedd i ddod.
- Mae'r Cyngor wedi dangos ymrwymiad i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a dinasyddion wrth ddatblygu ac adolygu'r gwasanaeth gofal cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw hyn yn cael ei ddangos yn gyson ar draws yr holl feysydd gwasanaeth, ac o ganlyniad, mae datblygu Strategaeth Cyfranogiad ac Ymglymiad Rhanddeiliaid wedi'i nodi gan y Cyngor fel blaenoriaeth ar gyfer 2011-12. Prif nod y strategaeth yw galluogi cydlynu a rheoli gweithgarwch ymgysylltu'r Cyngor yn effeithiol fel bod y cyfraniadau a wneir gan drigolion yn ystyrlon ac yn gynaliadwy.'

69 Rydym wedi canfod hefyd fod y Cyngor yn gofyn am farnau trigolion ar ansawdd y gwaith a wnaed ar yr addasiadau i gartrefi preswylwyr, ond nid yw'n gofyn eto a yw'r gwaith addasu wedi galluogi'r unigolyn hŷn i fod yn fwy annibynnol. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n asesu effaith ei waith a'i gynlluniau i ddatblygu'r gwerthuso hwn yn y dyfodol.

**Mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer cyflwyno cyfrifoldebau newydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

70 Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth ddiwygiedig y mae'n bwriadu ei rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2012 er mwyn bodloni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau newydd o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*. Yn ystod ein gwaith, rydym wedi canfod fod swyddogion yn ymwybodol yn gyffredinol o'r ddeddfwriaeth sydd ar ddod. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw sôn yn yr adroddiad perfformiad blynyddol am waith y Cyngor i fodloni *Deddf Cydraddoldeb 2010*.

**Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei gyfranogiad mewn prosiectau cydweithredol**

71 Mae'r adolygiad perfformiad blynyddol yn disgrifio ymrwymiad parhaus y Cyngor i gyfranogi mewn prosiectau cydweithredol lle mae achos busnes da dros wneud hynny. Mae'r adolygiad yn rhoi disgrifiad byr o rai o'r trefniadau sy'n datblygu; fodd bynnag, nid yw'n rhoi unrhyw werthusiad o effeithiolrwydd y datblygiadau hyn na'r rhesymau dros gydweithredu ar rai materion ac nid ar faterion eraill.

72 Yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chraffu ar Bolisi yn gynharach yn 2011, cododd aelodau bryderon ynglŷn â phrosiectau

cydweithredol, gan gynnwys diffyg gwybodaeth sydd ar gael, goblygiadau o ran adnoddau, arbedion posibl a chostau i'r Cyngor. Cytunwyd bod Grŵp Cydlynu'r Cyd-Gadeiryddion Craffu yn cael adroddiadau rheolaidd bob chwe mis ar gynnydd y gwaith ar y cyd a'r prosiectau cydweithredol sy'n cynnwys y Cyngor. Fe allai Grŵp Cydlynu'r Cyd-Gadeiryddion nodi unrhyw feysydd penodol wedyn y gall fod angen eu trafod ymhellach, a'u cyfeirio at y pwyllgor craffu perthnasol. Ar ôl ystyriaeth gan y Cyd-Gadeiryddion a'r pwyllgorau craffu, byddai'r Bwrdd Gweithredol yn parhau i dderbyn adroddiadau gwybodaeth ddwywaith y flwyddyn wedyn ar gynnydd y gwaith ar y cyd. Nid oedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Hydref wedi'i drafod gan unrhyw bwyllgor craffu, ac nid oedd yn cynnwys gwybodaeth am arbedion a chostau'r prosiectau rhanbarthol arfaethedig y cyfeiriwyd atynt. Ond roedd yr adroddiad yn cynnig un gweithdy i'r holl aelodau i ystyried goblygiadau cydweithredu pellach a'r cytundebau compact arfaethedig rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

**Cydweithredu gyda phartneriaid lleol eraill a gyda Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych**

73 Trwy gydweithredu a rhesymoli partneriaethau, mae ystod o wasanaethau integredig neu wasanaethau a rennir, a chyrff partneriaeth ar y cyd yn datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar y cyd rhwng Wrecsam a Sir y Fflint, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2011;
- Tîm Dyletswydd Argyfwng (gwaith cymdeithasol) Gogledd Ddwyrain Cymru ar gyfer Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint;
- Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, yn cael ei gynnal gan Gyngor Wrecsam;
- mae'r Cyngor wrthi'n ymchwilio i bosibilrwydd cydweithredu gyda Chyngor Sir y Fflint yn ei Wasanaethau Diogelu'r Cyhoedd; ac
- fe wnaeth y Cyngor a'i bartneriaid yn Wrecsam a Sir y Fflint gynhyrchu'u Hasesiad Strategol cyntaf ar y cyd ar ddechrau 2011, ac erbyn hyn maent wedi cynhyrchu Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 2011-14 ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam.

**Mae prosiectau cydweithredol rhanbarthol yn cael eu datblygu**

74 Gyda'r pum cyngor arall yng Ngogledd Cymru, mae Wrecsam yn rhan o Dîm Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae'n rhan o bedwar bwrdd rhaglenni, bob un ohonynt â nifer o brosiectau ar gyfer cydweithredu'n rhanbarthol arnynt (gweler Arddangosyn 1).

## Arddangosyn 1: Prosiectau cydweithredu rhanbarthol

Mae'r pedwar bwrdd rhaglenni rhanbarthol yn datblygu ystod o brosiectau

| Bwrdd rhaglen | Prosiectau |
|---|---|
| **Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig** | • Gwasanaeth Gwella Ysgolion (Disgwylir i ail gam ehangu cwmpas y gwasanaeth)<br>• Cydweithredu mewn Gwasanaethau Llyfrgell |
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | • Canolfan Gomisiynu<br>• Gwasanaethau Cefnogi Pobl<br>• Teleofal<br>• Datblygu'r Gweithlu<br>• Cefnogaeth TGCh i gofnodion cleientiaid (PARIS a RAISE) |
| **Bwrdd yr Amgylchedd a Gwasanaethau Rheoleiddio** | • Rheoli Fflydoedd<br>• Trawsnewid Trafnidiaeth<br>• Gwastraff<br>• Ymestyn Taith<br>• Datblygiad Economaidd |
| **Gwasanaethau Cymorth** | • Gwasanaethau Cyfreithiol<br>• TGCh<br>• Caffael<br>• Disgowntiau Person Sengl<br>• Cynllunio Argyfwng |

**Cynnydd araf mae'r Cyngor wedi'i wneud yn mynd i'r afael â nifer o'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed mewn adroddiadau blaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol**

75 Gwnaethom gynigion ar gyfer gwella yn yr *Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol* yn 2010 ac yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* ym mis Ionawr 2011. Gan mai ychydig o gynnydd gafodd ei wneud ar rai o'r meysydd pwysig hyn, gwnaed argymhellion a chynigion ffurfiol ychwanegol ar gyfer gwella yn y llythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* ym mis Gorffennaf 2011. Gweler Arddangosyn 2 am fanylion y rhain.

## Arddangosyn 2: Cynnydd ar gynigion ac argymhellion blaenorol

Cynnydd araf mae'r Cyngor wedi'i wneud yn gweithredu rhai o'r argymhellion blaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Ymdrinnir yn fanylach â chynnydd yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

| Argymhellion blaenorol | Cynnydd |
|---|---|
| **Cynigion a wnaed yn yr *Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol*, Gorffennaf 2010** | |
| Cynigion a wnaed yn yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, Gorffennaf 2010 | Cynnydd cyfyngedig, felly cynnig ychwanegol wedi'i wneud<br>Paragraffau 42-44 |
| Sicrhau bod rolau aelodau'r Bwrdd Gweithredol a rolau craffu yn cefnogi proses benderfynu effeithiol ac yn galluogi i'r broses craffu ganolbwyntio ar faterion blaenoriaeth. | Cynnydd cyfyngedig, felly argymhelliad ffurfiol wedi'i wneud<br>Paragraffau 28-33 |
| Datblygu cynlluniau gweithlu corfforaethol. | Cynnydd cyfyngedig<br>Paragraffau 34-41 |
| Gwella'r strategaeth ariannol tymor canolig fel bod adnoddau'n cael eu cysylltu mwy â blaenoriaethau. | Cynnydd cyfyngedig, felly argymhelliad ffurfiol wedi'i wneud<br>Paragraffau 45-51 |
| Parhau i wella prosesau busnes drwy hwyluso trefniadau i sicrhau eu bod yn cefnogi rheoli, monitro a chraffu effeithiol. | Cynnydd cyfyngedig, felly argymhelliad ffurfiol wedi'i wneud<br>Paragraffau 148-154 |
| **Cynigion ychwanegol a wnaed yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol*, Ionawr 2011** | |
| Sicrhau nad yw ffocws ei flaenoriaethau mor gul ei fod yn cael effaith gyfyngedig ar y materion ehangach y mae am fynd i'r afael â nhw. | Cynnydd rhesymol<br>Paragraffau 120 -121 |
| Datblygu ymagwedd gyson at osod targedau mewn meysydd lle mae angen gwelliant fel y cydnabyddir mai bwriad targedau yw ysgogi gwelliant ac efallai na chyflawnir y targedau. | Dim cynnydd<br>Paragraff 151 |
| Dangos sut y caiff ymgynghori ac adborth gan ddefnyddwyr a thrigolion eu defnyddio i wella gwasanaethau. | Cynnydd cyfyngedig<br>Paragraffau 52-56 |

| Argymhellion blaenorol | Cynnydd |
|---|---|
| **Argymhellion statudol ychwanegol a wnaed yn y llythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol*, Gorffennaf 2011** | |
| Dylai'r Cyngor amlinellu trefniadau i adolygu'r prosesau craffu a phenderfynu ac i hwyluso prosesau busnes sy'n cynyddu cyflymder newid wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. | Dim newid sylweddol, ond adolygiad yn mynd rhagddo yn unol ag ymateb y Cyngor<br>Paragraffau 28-33 |
| Dylai'r Cyngor amlinellu sut bydd yn mynd ati i integreiddio'r prosesau ar gyfer datblygu amcanion gwella yn y dyfodol a dyrannu adnoddau iddynt fel rhan o'i broses cynllunio tymor canolig a phennu cyllideb. | Cynnydd yn unol ag ymateb y Cyngor i'r argymhelliad<br>Paragraffau 45-51 |
| **Cynigion ychwanegol a wnaed yn y llythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol*, Gorffennaf 2011** | |
| Cwblhau datblygu mesurau deilliannau ar gyfer ei flaenoriaethau gwella, a defnyddio adroddiadau perfformiad i dynnu sylw at gynnydd ar gyflawni deilliannau. | Rhywfaint o gynnydd ond heb ei gwblhau<br>Paragraffau 42-44 |
| Gwella effeithiolrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd, a datblygu dull mwy cydlynus ar draws y Cyngor. | Cynnydd cyfyngedig<br>Paragraffau 52-56 |

**Mae camau diweddar yn cynnwys y potensial i gynyddu cyflymder gwella**

76 Ar ôl cyfnod o drefniadau Prif Weithredwr Dros Dro, mae'r Prif Weithredwr sydd newydd ei phenodi wedi ymgymryd â'i swydd ac wedi dechrau cymryd nifer o gamau gweithredu. Mae gwaith wedi cychwyn ar nifer o feysydd pwysig y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn i geisio sicrhau gwelliant pellach a chyflymach, gan gynnwys:

- Gwaith ar ddatblygu amcanion gwella newydd ar gyfer 2012-13. Cytunwyd ar fframwaith ar gyfer datblygu'r fersiwn newydd o *Gynllun y Cyngor* 2012-2016 gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Rhagfyr 2011, gan gynnwys cynlluniau i ddatblygu, herio a chymeradwyo camau, mesurau a thargedau gwella arfaethedig.
- Mae adolygiad yn mynd rhagddo o rôl yr aelodau Gweithredol a'r broses benderfynu.
- Fe wnaeth gweithredu cylch gwaith ehangach ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid, gan gynnwys dechrau asesiadau strategol, gynyddu ymdrech ac uchelgais, ac ysgogi cymorth i gyflawni blaenoriaethau.
- Adolygiad o brosesau ar gyfer rheoli perfformiad.
- Cynyddu cyflymder cyflawni gyda'r camau yn y cynllun gweithredu i gyflawni'r strategaeth Adnoddau Dynol.
- Ymateb i nifer o faterion a godwyd yn *Adroddiad Ariannol gan Gymheiriaid* CLILC.

77 Mae'r camau hyn yn cynnwys y potensial i fynd i'r afael â rhai o'r gwendidau yn y trefniadau y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u nodi'n flaenorol, o fwrw ymlaen â hwy yn egnïol.

# Cynnydd cymysg mae'r Cyngor yn ei wneud o ran gwella gwasanaethau

78 Rydym wedi ystyried gwella cyflwyno gwasanaethau a deilliannau i'r cyhoedd mewn tair rhan:

- pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni gwelliant wrth gynorthwyo pobl mewn angen;
- pa mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni gwelliant wrth helpu pobl i ddatblygu; a
- pha mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni gwelliant wrth helpu creu a chynnal yr ardal fel lle diogel, ffyniannus a dymunol.

79 Rydym wedi tynnu sylw at flaenoriaethau gwella'r Cyngor sy'n gysylltiedig â phob adran, ynghyd ag hunanasesiad y Cyngor ei hun o'i gynnydd wrth gyflawni'r rhain.

**Nid yw rhai o'r gwasanaethau i gynorthwyo pobl sy'n agored i niwed ac mewn angen yn gweithio mor effeithiol ag y gallent**

80 Yn y rhan hon ystyriwn y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol, tai, ac yn benodol, blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer:

- helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol;
- gwella'r trefniadau diogelu plant;
- helpu pobl i fwyta deiet iachach a bod yn fwy egnïol; a
- helpu cynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol.

Mae mwy o bobl yn derbyn gwasanaethau i'w helpu i fyw'n annibynnol, ac mae agweddau ar wasanaethau plant i'w harolygu gan AGGCC

81 Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gynhyrchu adroddiad hunanasesu blynyddol o ba mor dda mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno. Bydd AGGCC[1] wedyn yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Bydd y dadansoddiad hwn yn arwain at gyhoeddi adolygiad a gwerthusiad blynyddol. Dywedodd crynodeb cyffredinol AGGCC ar gyfer 2010-11:

- 'Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn gweithio ar raglen o newid mewn gwasanaethau oedolion a phlant, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaethau cynaliadwy wedi'u moderneiddio ar gyfer trigolion lleol. Yn 2010-11, gwnaed cynnydd mewn llawer o'r meysydd datblygu a nodwyd y llynedd. Fodd bynnag, mae gwasanaethau plant yn parhau i wynebu rhai heriau penodol. Er bod gwneud penderfyniadau amserol mewn perthynas â chyfeiriadau wedi dangos gwelliant sylweddol, mae asesiadau cychwynnol a chyfraddau ailgyfeirio yn parhau ar lefel perfformiad annerbyniol. Hon yw'r ail flwyddyn y mae'r angen am welliant wedi'i nodi yn yr agweddau hyn ar wasanaethau plant, ac er bod camau wedi'u cymryd gyda'r bwriad o wella perfformiad, nid yw'r rhain wedi cael effaith ddigonol eto.
- Mae arolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer asesu a rheoli gofal plant mewn angen wedi'i drefnu ar gyfer y gaeaf 2011-12.

1 Rôl AGGCC yw gwneud asesiadau proffesiynol a rhoi eu barn ynghylch meysydd gofal

- Mae'r Cyngor wedi dangos ymrwymiad i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a dinasyddion yn y broses o ddatblygu ac adolygu gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw hyn yn cael ei ddangos yn gyson ar draws yr holl feysydd gwasanaeth, ac o ganlyniad, mae datblygu *Strategaeth Cyfranogiad ac Ymglymiad Rhanddeiliaid* wedi'i nodi gan y Cyngor yn flaenoriaeth ar gyfer 2011-12. Prif nod y strategaeth yw galluogi cydlynu a rheoli gweithgarwch ymgysylltu'r Cyngor yn effeithiol fel bod y cyfraniadau a wneir gan drigolion yn ystyrlon ac yn gynaliadwy. Mae datblygu strategaethau comisiynu yn parhau'n faes blaenoriaeth arall i'w ddatblygu.'

## Mae mwy o bobl hŷn yn cael gwasanaethau i'w helpu i fyw'n annibynnol

82 Mae cynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn un o flaenoriaethau gwella'r Cyngor. Dywed y Cyngor 'os ydym yn llwyddo i wneud pethau yn y maes hwn, yna bydd pobl hŷn yn gallu aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy lle mae hyn yn gyson â'u hanghenion. Yn ogystal, bydd pobl hŷn yn dweud wrthym eu bod wedi gallu cael y cyngor, y cymorth a'r gofal yr oedd ei angen arnynt.' Mae wedi adrodd ei fod 'ar y trywydd iawn' i gyflawni'i nodau a bod:

- y galw am deleofal[2] wedi cynyddu;
- mae'r targed wedi'i gyflawni ar gyfer gwella'r gyfradd o ran cwblhau addasiadau gan ddefnyddio grant cyfleusterau i'r anabl; ac
- mae dros 100 o dderbyniadau i'r ysbyty wedi'u hosgoi.

Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod meysydd i'w gwella'n cynnwys:

- cwblhau'r adolygiadau o gynlluniau pobl hŷn *Cefnogi Pobl* sydd ar ôl; a
- chwblhau gwaith i ail-gomisiynu ac ailstrwythuro'r gwasanaeth gofal cartref mewnol.

83 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno model ail-alluogi fel ymateb cyntaf i'r mwyafrif o gyfeiriadau newydd a wneir i ofal cymdeithasol oedolion. Nododd AGGCC 'mae asesu a rheoli gofal mewn gwasanaethau oedolion yn cael ei danategu gan fodel o gyflwyno gwasanaethau sy'n cynnwys ail-alluogi, a'i nod yw hyrwyddo a chynnal annibyniaeth pobl yn y gymuned. Mae tystiolaeth fod yr ymagwedd hon yn effeithiol, gan nad oedd angen gwasanaethau pellach ar 46 y cant o bobl hŷn y darparwyd trefniadau ail-alluogi iddynt yn ystod 2010-11, ac roeddent yn gallu aros yn annibynnol.' Nododd AGGCC hefyd 'mae'r Cyngor wedi lleihau'r amser a gymerwyd i gwblhau asesiadau therapi galwedigaethol o 13 i 10 wythnos yn 2011-12'.

84 Un galluogydd allweddol sy'n golygu bod pobl hŷn yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy yw gosod cyfleusterau i'r anabl. Gall trigolion wneud cais i'r Cyngor am grantiau i wneud gwaith o'r fath. Mae amserau aros hir wedi bod gan y Cyngor yn y gorffennol ar gyfer darparu addasiadau a ariennir gan grant. Adroddodd y Cyngor yn 2010-11 fod yr amser wedi lleihau o 386 diwrnod yn 2009-10 i 305 diwrnod. Fodd bynnag, mae'r amser a gymer i ddarparu addasiadau cost isel yn

2 Mae'r gwasanaeth teleofal yn defnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau monitro a chynorthwyo o bell er mwyn galluogi pobl i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

parhau'n hir, ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn.

85 Agorodd datblygiad tai gofal ychwanegol newydd o'r enw 'Plas Madoc' ym mis Hydref 2011, a bydd yn darparu llety â chymorth fforddiadwy mewn 52 o fflatiau. Mae hwn yn gyflawniad da. Mae angen i'r Cyngor wneud llawer mwy o waith o hyd i gyflawni'i nodau i alluogi pobl hŷn gael mynediad i amrywiaeth ehangach o lety, gofal a gwasanaethau cymorth o ansawdd. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai llety addas cyfyngedig sydd ganddo i bobl hŷn. Mae wrthi'n adolygu ei ddarpariaeth tai gwarchod, ac yna mae angen iddo ddatblygu cynlluniau a phennu cyllid i fynd i'r afael â'r diffyg a nodwyd o ran llety.

86 Mae'r defnydd o wasanaethau teleofal wedi parhau i gynyddu, ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a phecynnau ychwanegol.

Bydd y cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud mewn agweddau ar wasanaethau plant yn cael ei arolygu gan AGGCC a'i adrodd i'r Cyngor yn 2012

87 Mae diogelu plant yn un o flaenoriaethau gwella'r cyngor, ac mae'r Cyngor wedi adrodd ei fod 'ar y trywydd iawn' i gyflawni'i amcanion, er ei fod wedi nodi rhai meysydd lle mae angen gwelliant, a lle mae gwelliant wedi'i gynllunio ar gyfer 2011-12. Fel y nodwyd uchod, adroddodd AGGCC, 'hon yw'r ail flwyddyn y mae'r angen am welliant wedi'i nodi yn yr agweddau hyn ar wasanaethau plant, ac er bod camau wedi'u cymryd gyda'r bwriad o wella perfformiad, nid yw'r rhain wedi cael effaith ddigonol eto'

.

88 Mae arolygiad gan AGGCC o drefniadau'r Cyngor ar gyfer asesu a rheoli gofal plant mewn angen wedi'i drefnu ar gyfer y gaeaf 2011-12.

Mae'r Cyngor yn cyflwyno llawer o weithgareddau i helpu pobl i fwyta deiet iachach ac i fod yn fwy egnïol, ond nid yw'n gallu dangos effaith y gwaith hwn eto

89 Dywed y Cyngor ei fod 'ar y trywydd iawn' i gyflawni ei amcan i annog pobl i fwyta'n iachach ac i fod yn fwy egnïol (HEBMA). Mae hwn yn amcan y mae'r Cyngor wrthi'n gweithio arno gydag ystod eang o bartneriaid. Mae rôl y Cyngor wedi cynnwys datblygu cyfleoedd ychwanegol i blant ac oedolion wneud gweithgareddau corfforol a gwella bwyta'n iach mewn ysgolion. Mae'r Cyngor wedi monitro'i gamau gweithredu, ond rydym wedi dweud o'r blaen nad oedd wedi esbonio sut byddai'n gallu dweud a yw ei gamau gweithredu'n gwneud gwahaniaeth i bobl Wrecsam. Gan na wnaeth y Cyngor a'i bartneriaid esbonio yn y lle cyntaf sut byddant yn mynd ati i fesur eu llwyddiant yn ystod 2009-2012 ni fyddant yn gallu gwneud hynny. Nod y *Strategaeth HEBMA*, sef strategaeth aml-asiantaeth a gytunwyd yn ystod 2010, yw gwella iechyd a lles pobl Wrecsam drwy leihau'r lefelau o oedolion a phlant gordew a gordrwm drwy fwyta'n iach a bod yn fwy egnïol. Mae'n ceisio:

- lleihau'r lefelau o oedolion a phlant gordew a gordrwm sy'n byw yn Wrecsam;
- cynyddu cyfraddau bwydo ar y fron;
- cynyddu nifer y bobl sy'n adrodd eu bod wedi bwyta pum darn o ffrwyth a llysiau y diwrnod blaenorol; a

- chynyddu nifer y bobl sy'n adrodd eu bod wedi cyrraedd y lefel gweithgarwch corfforol a argymhellir yn yr wythnos flaenorol.

90 Cynhwyswyd y nodau hyn yng *Nghynllun y Cyngor – Gosod Ein Targedau 2010 i 2011*. Fodd bynnag, nid yw'r data sydd ei angen i asesu cynnydd o ran y nodau hyn ar gael yn llawn eto nac yn cael ei ddefnyddio'n llawn.

91 Roedd gwaith y Cyngor yn ystod 2010-11 yn cynnwys sefydlu llwybrau beicio a cherdded newydd diogel ar gyfer tair ysgol, a pharhau i ddatblygu'r cynllun Blas am Oes. Mae'r cynllun hwn wedi gwella mannau bwyta mewn ysgolion, wedi cyflwyno bwydlenni iachach ac wedi darparu addysg i ddisgyblion ar bwysigrwydd bwyta deiet iach. Gwnaethpwyd hyn mewn 18 o ysgolion cynradd a naw ysgol uwchradd. Mae gwaith pellach wrthi'n cael ei wneud i ddwyn perswâd ar staff arlwyo a disgyblion i dderbyn y bwydlenni iachach newydd. Nid oes unrhyw wybodaeth gan y Cyngor am effaith y newidiadau hyn, ar ddeiet pobl ifanc, nac effaith y llwybrau cerdded a beicio newydd.

92 Mae nifer y bobl sydd ar y *Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio i Ymarfer* yn rhagori ar ei darged, ac mae'n fwy llwyddiannus na'r flwyddyn flaenorol. Teimla'r Cyngor mai'r rheswm rhannol am hyn yw ei gyfarfodydd croesawu unigryw i gyfranogwyr, sy'n cael eu cynnal gan ei dîm o swyddogion a enwyd fel y 'gorau yng Nghymru' gan Nwyfiant Cymru.

93 Adrodda'r Cyngor iddo fodloni pob un o'i dargedau ar gyfer 2010-11 er bod llawer o'r targedau'n ymwneud ag ymarfer corff yn is yn 2010-11 nad yn y flwyddyn flaenorol. Deallwn mai'r rheswm am hyn oedd cau Canolfan Hamdden Gwyn Evans ar gyfer gwaith adnewyddu, er nad yw hyn yn cael ei esbonio yn ei adroddiad perfformiad blynyddol. Ni threfnodd y Cyngor amrywiaeth amgen o weithgareddau i drigolion yn ystod y cyfnod hwn pan oedd y ganolfan ar gau.

94 Fwy na dwy flynedd ers mabwysiadu'r amcan HEBMA, mae swyddogion yn parhau i weithio ar ddatblygu mesurau i ddangos bod ymdrechion y Cyngor yn gwneud gwahaniaeth, ac erbyn diwedd cynllun y Cyngor ym mis Ebrill 2012, dangos fod mwy o bobl yn bwyta deiet iachach ac yn gwneud mwy o ymarfer corff.

Mae'r Cyngor yn methu â bodloni ei amcanion ar gyfer cynyddu nifer y tai fforddiadwy newydd yn ystod 2009-2012 er bod rhai datblygiadau arwyddocaol wedi'u cynllunio

95 Yn 2009, fe wnaeth y Cyngor fabwysiadu un o flaenoriaethau uchaf cyngor, sef cynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy. Nododd angen i ddarparu cyfartaledd o 147 o dai fforddiadwy newydd bob blwyddyn hyd at 2021. Mae'r Cyngor wedi adrodd ei fod 'ar ei hôl hi'n sylweddol' o ran yr amcan hwn.

96 Ar gyfer 2010-11, methodd y Cyngor ei darged, gydag ond 83 o gymharu â tharged o 178 o dai fforddiadwy yn cael eu darparu yn Wrecsam. Hon yw'r chweched nifer a chyfradd isaf fesul 10,000 o gartrefi ardaloedd cynghorau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n gynnydd o'r 10 uned a gyflwynwyd yn 2008-09 a'r 41 uned yn 2009-10. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd

rhyw 85 o unedau tai fforddiadwy yn cael eu darparu yn 2011-12.

97 Mae'r pwyslais ers 2010 wedi bod ar nodi safleoedd sy'n berchen i'r cyngor ar gyfer eu datblygu o bosibl. Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio'i sylw ar nodi lleiniau o dir y gall drefnu eu bod ar gael i ddatblygwyr adeiladu tai fforddiadwy arnynt. Mae bellach mewn sefyllfa lle mae ganddo ganiatâd cynllunio amlinellol ar 20 o safleoedd. Y datblygiad mwyaf yw disodli Fflatiau Hightown gydag oddeutu 140 o unedau newydd.

98 Er gwaetha'r perfformiad gwael hwn, mae'r swyddogion yn parhau i adrodd i'r Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau craffu mai ychydig ar ei hôl hi y maent o ran cynnydd. Teimlwn fod hyn yn rhy gadarnhaol gan mai'r targed gwreiddiol ar gyfer tai newydd fforddiadwy yn 2010-11 oedd 388. Er bod y targed hwn wedi'i leihau i lai na hanner, mae'r Cyngor wedi methu â'i gyflawni o hyd.

Mae gwendidau yn ansawdd tai cyngor, yr ymateb i ddigartrefedd ac yn y trefniadau ar gyfer talu budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor

99 Un agwedd yn unig ar y ddarpariaeth tai yw'r angen am dai fforddiadwy, ac mae'r Cyngor yn wynebu heriau hefyd ynglŷn ag ansawdd ei stoc tai, o ran ymateb i ddigartrefedd yn y fwrdeistref, ac wrth ddarparu cymorth effeithlon i'r rhai sy'n hawlio budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor.

100 Mae stoc tai'r Cyngor ei hun mewn cyflwr gwael, a bydd Wrecsam yn un o dri chyngor yn unig yng Nghymru na fydd yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar gyfer pob un o'i gartrefi erbyn diwedd y degawd. Yn ystod 2010, cynhaliodd y Cyngor Arfarniad o Ddewisiadau Ariannol a gadarnhaodd na allai fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru gan ddefnyddio'i adnoddau ei hun. Mae wedi datblygu blaenoriaethau ar gyfer cyflawni ei Raglen Gwaith Cyfalaf yn seiliedig ar arolygon o denantiaid. Er ei fod yn canolbwyntio'i adnoddau ar fynd i'r afael â rhai o'r pryderon y dywed tenantiaid yw'r rhai pwysicaf, nid oes gan y Cyngor strategaeth ar waith ar gyfer bodloni SATC, ac ni fydd yn adolygu dewisiadau hyd nes ar ôl etholiadau mis Mai 2012. Perfformiad Wrecsam erbyn 2011 tuag at gyflawni targed Llywodraeth Cymru i gydymffurfio 100 y cant â SATC yw un o'r gwaethaf yng Nghymru. Er bod y ffigurau ar gyfer cydymffurfio'n llawn yn isel, mae'r perfformiad mewn tri maes gwella penodol yn uwch o lawer. Erbyn hyn mae gan bob cartref synwyryddion mwg sy'n rhedeg ar y prif gyflenwad trydan, ac mae rhaglen gynhwysfawr i adnewyddu ffenestri a drysau allanol wedi'i chwblhau.

101 Yng Nghymru, fe wnaeth nifer yr aelwydydd yn cael eu derbyn fel pobl ddigartref ddisgyn o uchafbwynt yn 2004-05 hyd at ddiwedd 2009, ond mae wedi bod yn cynyddu'n raddol ers hynny. Yn Wrecsam, bu tuedd debyg gyda'r nifer o aelwydydd yn cael eu derbyn yn bobl ddigartref yn 2010-11 yn codi i bron i 400, o gymharu â'r uchafbwynt blaenorol o dros 350 yn 2004-05. Mae Gwasanaeth Digartrefedd Wrecsam wedi gweld cynnydd triphlyg yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth ers 2008-09, ac mae'r nifer yn dal i godi. Mae newidiadau wedi'u gwneud i'r gwasanaeth, ond gan Wrecsam oedd y gyfradd isaf yng Nghymru ar gyfer gweithredu o fewn 33

diwrnod i geisiadau am gymorth gan bobl ddigartref. Fe wnaeth cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru berfformio'n well o lawer na Wrecsam yn y ganran o aelwydydd digartref posibl lle llwyddodd gweithredu gan y Cyngor i atal digartrefedd am chwe mis o leiaf. Dim ond 35.07 y cant wnaeth Wrecsam gyflawni; hwn oedd y perfformiad gwaethaf, ac roedd yn hanner y gyfradd gyfartalog ar gyfer cynghorau eraill Gogledd Cymru a'r Canolbarth. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar sut gellir gwella'r gwasanaeth.

102 Yn 2009-10, gwariwyd rhyw £1.08 biliwn ar fudd-dal tai (£832.9 miliwn) a budd-dal y dreth gyngor (£248.9 miliwn) ledled Cymru i aelwydydd incwm isel. Caiff y budd-daliadau hyn eu gweinyddu gan gynghorau ac mae hyn yn gofyn am ryngweithio sylweddol gyda nifer fawr o gwsmeriaid sy'n agored i niwed, felly mae'n bwysig y gall y gwasanaeth ddiwallu'u hanghenion. Yn 2009, roedd y ganran o aelwydydd yn Wrecsam a oedd yn derbyn budd-dal tai yn debyg i gyfartaledd Cymru, ac roedd ychydig yn is ar gyfer budd-dal y dreth gyngor.

103 Yn 2010, gorfodwyd y Cyngor i adnewyddu ei system gyfrifiadur budd-daliadau dros gyfnod amser byr iawn gan fod y cyflenwr wedi atal cefnogaeth ar gyfer y system. Fe aeth y cyfnod gweithredu'n dda, ac mae'r broses o gofnodi ac adennill gordaliadau budd-daliadau wedi gwella o ganlyniad i hynny. Cymerwyd y cyfle i foderneiddio'r gwasanaeth ymhellach yn sgil cyflwyno rheolaeth dogfennau a llif gwaith ar yr un pryd. Mae perfformiad y Cyngor yn ail chwarter y cynghorau yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud yn well ac mae'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i fynd i'r afael â materion.

104 Gall y diffyg mynediad uniongyrchol wyneb yn wyneb i gwsmeriaid at staff budd-daliadau arbenigol ar gyfer ceisiadau newydd cychwynnol mwy cymhleth am fudd-daliadau trwy Galw Wrecsam fod yn cyfrannu at arafu cyflwyno gwasanaethau a llai o gywirdeb o ran prosesu ceisiadau. Mae'r Cyngor wrthi'n rhoi meddalwedd newydd arall ar waith yn awr i gynorthwyo ceisiadau electronig am fudd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor, ac mae staff arbenigol ychwanegol yn cael eu lleoli yn Galw Wrecsam.

105 Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth budd-daliadau mewn ymateb i argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi gwelliant pellach dylai'r Cyngor:

- gyflwyno gwiriadau ansawdd digonol ar brosesu ceisiadau cyn talu budd-dal;
- cyflwyno arweiniad gweithdrefnol cynhwysfawr ar bob agwedd ar atal ac adennill dyled gordalu; ac
- asesu effaith ei wasanaeth ar gwsmeriaid drwy arolygon rheolaidd o gwsmeriaid.

## Barnodd Estyn fod gwasanaethau addysg yn ddigonol ym mis Tachwedd 2010; roedd perfformiad disgyblion yn 2011 yn dda, mae nifer y bobl NEET wedi lleihau ac mae cyfleoedd i ddysgu'n ddwyieithog wedi'u cynyddu

106 Yn y rhan hon ystyriwn ddarpariaeth y cyngor i gynorthwyo datblygiad pobl, gan gynnwys gwasanaethau addysg a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer:

- helpu pobl i gael addysg well a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflogaeth; a
- hyrwyddo cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, a'r Cyngor yn hyrwyddo diwylliant Cymru.

107 Ym mis Tachwedd 2010, bu Estyn yn arolygu gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc. Rhoddir isod grynodeb o'r canfyddiadau ac asesiad Estyn o berfformiad diweddar.

### Er bod perfformiad disgyblion yn 2011 yn dda, barnodd arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ym mis Tachwedd 2010 mai digonol oedd y gwasanaethau a'r rhagolygon gwella

### Perfformiad

108 At ei gilydd, yn 2011, mae safonau yn Wrecsam yn dda. Pan gaiff ystod o wybodaeth gyd-destunol ei hystyried, mae perfformiad disgyblion yn Wrecsam yn dda ym mhob cyfnod allweddol. O 2007 i 2010, llwyddodd Wrecsam i fodloni neu ragori ar ran fwyaf o feincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 (14 oed) a 4 (16 oed), yn seiliedig ar hawl i gael prydau ysgol am ddim. Nid yw gwybodaeth feincnod ar gyfer 2011 ar gael eto.

109 Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd uwchlaw'r cyfartaledd pan gaiff gwybodaeth gyd-destunol ei hystyried. Nid oes unrhyw waharddiadau parhaol bron. Fodd bynnag, mae'r gyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol yn rhy uchel.

### Arolygu

110 Fe wnaeth Estyn, yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru, arolygu Wrecsam ym mis Tachwedd 2010.

111 Barnodd yr arolygwyr fod 'gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddigonol oherwydd:

- mae plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd cyson ac yn cyflawni safonau da ar ddiwedd cyfnodau allweddol 3 a 4;
- mae'r awdurdod wedi gwella ei gymorth a'i her i ysgolion;
- nid yw'r awdurdod wedi gwneud digon gynnydd o ran lleihau lleoedd dros ben, ac o ran gwneud yn siŵr bod darpariaeth y chweched dosbarth yn cynnig gwerth am arian; ac
- mae gormod o ysgolion uwchradd â diffyg cyllidol.

112 Barnodd yr arolygwyr fod rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn ddigonol oherwydd:

- mae perthnasoedd gweithio da gydag aelodau etholedig ac uwch swyddogion ac maent yn ymgysylltu'n dda mewn ystod o bartneriaethau;

- mae pwyslais cynyddol ar hunanwerthuso;
- nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau unigol yn gwerthuso deilliannau'n ddigon cyson i dargedu cymorth yn effeithiol, ac nid oes trosolwg clir am berfformiad yn cael ei rannu ar draws yr awdurdod; ac
- nid oes digon o eglurder ynglŷn â blaenoriaethau'r awdurdod ar gyfer addysg.

113 Argymhellodd yr arolygwyr y dylai'r awdurdod, er mwyn gwella, wneud y canlynol:

- nodi'n gliriach beth yw'r amcanion ar gyfer addysg ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac adlewyrchu'r rhain yn ei gynlluniau;
- gwneud yn siŵr bod rolau'r Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau craffu yn cefnogi proses benderfynu effeithiol er mwyn gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc;
- gwella ansawdd a chysondeb gwerthuso gwasanaethau er mwyn llywio'r cynllunio'n well;
- datblygu trefniadau cyson ar gyfer adrodd am berfformiad mewn gwasanaethau addysg ac ar draws y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc;
- lleihau lleoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd yn unol â strategaeth wedi'i hadlinio'r Cyngor ar gyfer ad-drefnu ysgolion; a
- gwella effeithiolrwydd trefniadau i fynd i'r afael â diffygion cyllidol ysgolion uwchradd.'

114 Bydd Estyn yn cynnal ymweliad monitro ym mis Mawrth 2012 i asesu cynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad.

**Mae nifer y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) wedi parhau i ostwng, ac mae'r Cyngor wedi newid ei amcan o 'addysg wella a sgiliau ar gyfer cyflogaeth' i 'wella dyheadau, dysgu a chyflawniad'**

115 Yn 2009, pennodd y Cyngor 'helpu pobl i gael addysg well a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflogaeth' fel un o'i flaenoriaethau cyngor. Y diben cyffredinol oedd cynorthwyo pobl i ddatblygu'r addysg a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i gyflogaeth yn llwyddiannus. Y targed hirdymor yw lleihau canran y bobl o oed gweithio sy'n economaidd anweithgar. Fodd bynnag, yn y tymor byr i'r tymor canolig, penderfynodd y Cyngor ganolbwyntio ar gyflawni gostyngiad yn y ganran o bobl ifanc sy'n gadael ysgol bobl blwyddyn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r Cyngor wedi adrodd ei fod 'ar y trywydd iawn' i gyflawni'r deilliant hwn.

116 Yn 2008, yn Wrecsam, roedd bron i un o bob 10 o bobl ifanc a adawodd yr ysgol yn 16 oed nad oedd yn hysbysu eu bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Erbyn 2009, roedd hyn wedi lleihau o hanner i fod ychydig yn well na chyfartaledd Cymru. Yn 2010, bu gostyngiad pellach o bump y cant i 4.2 y cant.

117 Ym mis Ebrill 2010, penderfynodd y Cyngor osod mesurau ychwanegol i fonitro a gwella lefel y rhai sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 12 a 13 (17 i 19 oed) sy'n bobl

NEET, a chyfran y disgyblion 16 oed sy'n parhau mewn addysg amser llawn. Y rheswm am hyn yw bod perfformiad y Cyngor yn y meysydd hyn wedi gwaethygu rhwng 2008 a 2009, o gymharu â chyfartaledd Cymru.

118 Yn 2010, yn Wrecsam roedd 2.8 y cant o ddisgyblion blwyddyn 12 a oedd yn NEET, ac mae hynny'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.1 y cant. Fodd bynnag, roedd 7.7 y cant o ddisgyblion blwyddyn 13 yn Wrecsam a oedd yn NEET, ac mae hynny'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 6.6 y cant. Mae hwn yn parhau'n faes sydd angen ei wella ymhellach.

119 Mae canran y rhai sy'n gadael yr ysgol sy'n parhau mewn addysg amser llawn ar ôl blwyddyn 11 wedi gwella, ond mae'n parhau islaw'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Y ganran sydd yn mynd ymlaen i addysg uwch wedyn ar ôl blwyddyn 13 oedd yr isaf yng Nghymru yn 2010, ac mae wedi bod yr isaf ers nifer o flynyddoedd.

120 Y llynedd, dywedom fod angen i'r Cyngor ehangu ei ffocws gwaith, gan yr oedd wedi dewis ffocws cul iawn nad oedd yn adlewyrchu'r amcan 'addysg well a sgiliau ar gyfer cyflogaeth' yn llawn. Argymhellodd arolygiad Estyn y dylai'r Cyngor 'nodi'n gliriach beth yw'r amcanion ar gyfer addysg ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac adlewyrchu'r rhain yn ei gynlluniau'. Penderfynodd y Cyngor newid yr amcan gwella i edrych ar ystod ehangach o faterion addysg. Dewisodd ehangu'r amcan i 'blant a phobl ifanc i gyd fod â dyheadau, yn dysgu ac yn cyflawni'u potensial.' Hwn yw un o'r deilliannau bwriadedig o'i gydgynllun newydd, sy'n amlinellu *Cynllun Plant a Phobl Ifanc Wrecsam a'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles* ar gyfer 2011-14.

121 Mae'r Cyngor wedi gosod targedau ar gyfer y mesurau y bydd yn eu defnyddio i benderfynu a yw'n bodloni'i amcan newydd, a dechreuodd adrodd ar gynnydd i aelodau yn ail hanner 2011. Fodd bynnag, mae'r mesurau hyn yn canolbwyntio ar ddysgu yn yr ysgol yn bennaf, ac nid yw'r Cyngor wedi cynnwys mesurau ar bobl ifanc NEET blwyddyn 12 neu 13, er eu bod wedi nod hyn fel maes yr oedd angen ei wella. Nid yw'r Cyngor ychwaith wedi gosod unrhyw dargedau ar gynyddu'r nifer sy'n mynd i mewn i addysg uwch, sy'n parhau yr isaf yng Nghymru.

Aeth y Cyngor ati i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad i ddiwylliant Cymru, ac mae'n parhau i geisio cynyddu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog, ond nid oes ganddo fesurau llwyddiant ar gyfer rhai deilliannau

122 Adroddodd y Cyngor ei fod 'ar y trywydd iawn' i gyflawni ei amcanion ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog ac i hyrwyddo diwylliant Cymru. Mae'n ceisio cyflawni pedwar o ddeilliannau:

- cydraddoldeb mynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd;
- cyfle cyfartal i'r rheiny sy'n dymuno dysgu'n ddwyieithog;
- cydraddoldeb mynediad i wasanaethau; a
- darparu cyfleoedd i bobl wella'u dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

123 Yn 2010-11, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol y broses ymgynghori ar y cynnig ar gyfer adeiladu ysgol gynradd Gymraeg yng Ngwersyllt. Mae'r ymgynghoriad wedi'i gynnal, ac aeth adroddiad ar hwn at y Bwrdd Gweithredol ym mis Hydref 2011, ar gyfer ysgol a fyddai'n cynnig 210 o leoedd i ddisgyblion. Fe wnaeth y Bwrdd Gweithredol gymeradwyo'r cynnig i gyhoeddi hysbysiadau statudol i sefydlu'r ysgol newydd. Pe na bai unrhyw wrthwynebiadau'n cael eu derbyn, fe allai'r ysgol gael ei hadeiladu a'i hagor mewn pryd ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2013.

124 Y llynedd, dywedom yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* nad yw'r Cyngor yn gallu gwybod a yw'n cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, gan nad yw wedi gosod targedau mesuradwy penodol iddo'i hun. Mae'r sefyllfa'r un fath yn 2010-11. Nid yw'r mesurau y mae'r Cyngor wedi'u gosod yn dweud wrthynt a yw pob un o'r disgyblion sydd eisiau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny, nac a yw disgyblion yn gallu dod yn ddwyieithog.

125 Adroddodd y Cyngor am lefelau uchel o fodlonrwydd â'r lefel gwasanaeth a ddarparwyd yn yr iaith Gymraeg; fodd bynnag, cododd Bwrdd yr Iaith Gymraeg bryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth mynediad i wasanaethau yn Gymraeg. Yn ei adolygiad blynyddol o weithrediad *Cynllun Iaith Gymraeg* y Cyngor, dywedodd:

- Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol ymdrechion y Cyngor i wneud yr iaith Gymraeg yn rhan o brif ffrwd ei agenda cynllunio corfforaethol drwy sicrhau bod pob un o brif bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn destun asesiadau effaith dros y tair blynedd nesaf. Mae ei ddefnydd o'r system reoli perfformiad Ffynnon yn ei gwneud hi'n haws ystyried targedau'r *Cynllun Iaith Cymraeg* ym mhroses gynllunio busnes y Cyngor.
- Methodd y Cyngor â chyflawni ei darged i gynyddu'r nifer o staff sy'n siarad Cymraeg yn ei gyflogaeth. Ni chafodd unrhyw swyddi llinell flaen a ddaeth yn wag yn ystod y flwyddyn eu hysbysebu gyda'r gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad 'hanfodol'. Dangosodd monitro mewnol fod ymateb y Cyngor i lythyrau a anfonwyd yn Gymraeg at y Cyngor yn anfoddhaol. Mae camau wedi'u cytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg erbyn hyn i fynd i'r afael â'r materion hyn.

126 Ni soniwyd am yr anawsterau a wynebwyd o ran cynyddu'r nifer o staff sy'n siarad Cymraeg yn yr adroddiad perfformiad blynyddol, ac ni chânt eu disgrifio ychwaith yn adroddiad y Cyngor i'r pwyllgor craffu ar safonau gofal cwsmeriaid ar gyfer 2010-11. Mae rhaglen hyfforddi iaith Gymraeg wedi bod ar waith gan y Cyngor ers blynyddoedd lawer. Yn ystod 2011-12, mae'r Cyngor wedi ceisio hyrwyddo dysgu Cymraeg ymhellach, a darparwyd dau gwrs hyfforddiant diweddaru i siaradwyr Cymraeg llai rhugl. Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu cynyddu hyfforddiant Cymraeg lefel uwch yn 2012-13.127 Cynhaliodd y Cyngor Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus yn haf 2011, a gwnaed llawer o'r gwaith paratoi ar gyfer y digwyddiad hwn yn 2010-11. Mae digwyddiadau diwylliannol eraill ar gael drwy *Flwyddyn Ddiwylliant Wrecsam*, ac yn yr amgueddfa sydd wedi'i hailwampio'n ddiweddar.

128 Ar gyfer y mesurau a osododd, mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus o ran

cynyddu'r ganran o ddisgyblion sy'n trosglwyddo rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, ac o ran cynyddu'r nifer o bobl a fynychodd raglenni'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg. Fodd bynnag, dim ond hanner y mesurau y llwyddwyd i'w cyflawni. Mewn rhai achosion, roedd perfformiad y Cyngor yn 2010-11 yn is nag yn y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys nifer y disgyblion yn cofrestru ar y rhaglen drochi yn Ysgol Morgan Llwyd ac yn mynd i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg, neu'r nifer o ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU llawn mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae'r Cyngor wedi paratoi cynllun ar gyfer addysg Gymraeg, gan ddefnyddio fformat sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae hwn yn gynllun lefel uchel, ac nid yw'n cynnwys manylion na graddfeydd amser a gynlluniwyd ar gyfer ei gyflawni. Ar ôl iddo gael adborth gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu Cynllun Gweithredu manylach. Mae yna risg na fydd y Cyngor, heb gynlluniau clir a chadarn, yn gallu bodloni'r galw cynyddol tebygol i drigolion ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn digwydd fel arfer ar ôl yr Eisteddfod.

129 Nid yw'r Cyngor wedi nodi eto faint o amser mae'n disgwyl y cymer i gyflawni cydraddoldeb mynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg, neu gydraddoldeb mynediad i wasanaethau. Caiff hyn ei benderfynu'n rhannol gan *Raglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif* Llywodraeth Cymru. Mae'n annhebygol y bydd y Cyngor yn cyflawni'i amcan yn llawn erbyn diwedd ei gyfnod cynllunio tair blynedd, ac efallai na fydd 'ar y trywydd iawn' felly ar gyfer yr amcan hwn, er gwaetha'r gwaith mae'n ei wneud i greu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

## Mae allyriadau carbon a'r defnydd o ynni yn cael eu lleihau ac mae gwasanaethau gwastraff yn gwella, er bod darlun cymysg ar gyfer lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau ac ofn troseddu

### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd i leihau ei allyriadau carbon a'i ddefnydd o ynni

130 Mae'r Cyngor wedi adrodd ei fod ar y trywydd iawn i leihau allyriadau carbon a'i ddefnydd o ynni. Rhannwn yr asesiad hwn am fod y Cyngor eisoes yn cyflawni gostyngiad yn ei allyriadau carbon, rhai arbedion ariannol, ac mae wrthi'n gweithredu ei gynlluniau ar gyfer mesurau tymor hwy ac ar gyfer cyfleu ei strategaeth.

131 Mae ystod o brosiectau lleihau carbon wedi'i gyflwyno, gan gynnwys ar gyfer tai, adeiladau annomestig, goleuadau stryd a'r fflyd cerbydau. Yn 2010-11, cyflawnodd y Cyngor ostyngiad o 4.9 y cant, ac mae hynny'n agos at gyfartaledd Cymru, sef 5.4 y cant mewn allyriadau o stoc adeiladau cyhoeddus annomestig.

132 Mae'r Cyngor wedi penderfynu defnyddio rhywfaint o fenthyca darbodus a chyllid lwfans atgyweiriadau mawr Llywodraeth Cymru i osod paneli solar ffotofoltäig ar hyd at 3,000 o dai cyngor ac adeiladau eraill fel rhan o'i flaenoriaeth i leihau allyriadau carbon a'r defnydd o ynni. Mae'r datblygiad mawr hwn yn mynd rhagddo yn dilyn adolygiad mewn ymateb i benderfyniad Llywodraeth y DU i newid trefniadau'r 'tariff cyflenwi trydan'. Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i hyn gan y Cyngor, ac mae wedi dewis benthyg cyllid a buddsoddi yn y paneli solar, a fydd yn helpu lleihau'r

defnydd o garbon, yn cynnig costau is i denantiaid, a disgwylir y bydd yn darparu incwm sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu eto sut bydd yr incwm yn cael ei ddefnyddio, gan gynnwys i ba raddau y gellir ei ddefnyddio i wella ansawdd y stoc tai, ysgolion ac asedau eraill.

133 Mae gan y Cyngor strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cyfleu ei waith ar leihau carbon. Mae'n cynnig ffynhonnell dda o wybodaeth ar y we am leihau allyriadau carbon ac ynni. Mae'r Cyngor yn darparu DVD â gwybodaeth am ddefnyddio paneli solar ffotofoltäig ac am leihau allyriadau carbon ac ynni. Mae prosiectau eraill yn cynnwys disodli goleuadau stryd â goleuadau mwy effeithlon, ac uwchraddio boeleri yn ei gartrefi cyngor.

134 Nid oes nifer ddigonol o fesurau perfformiad ar gyfer lleihau allyriadau carbon a'r defnydd o ynni.

**Mae gwasanaethau gwastraff yn dal i wella**

135 Mae'r Cyngor wedi adrodd ei fod 'ar y trywydd iawn' i gyflawni ei amcan i leihau gwastraff a gwella ailgylchu. Rhannwn yr asesiad hwn.

136 Adroddodd y Cyngor ei fod, yn 2010-11, wedi:

- cynyddu'r ganran o wastraff trefol sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu'i gompostio o bump y cant;
- cynyddu'r ganran o wastraff a dderbynnir mewn safleoedd amwynder gwastraff cartrefi sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu'i gompostio o wyth y cant;
- lleihau cyfanswm y tunelledd gwastraff trefol pydradwy sy'n cael ei anfon i'w dirlenwi o naw y cant; ac wedi
- lleihau'r ganran o wastraff sy'n cael ei anfon i'w dirlenwi o wyth y cant.

137 Mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu ei wasanaethau gwastraff wrth gasglu a thrin gwastraff gweddilliol (na ellir ei ailgylchu). Mae'r gwasanaeth hwn yn rhan o gynllun Menter Cyllid Preifat a sefydlwyd gan y Cyngor nifer o flynyddoedd yn ôl. Yn 2010, cynhaliodd y Cyngor adolygiad o'r broses casglu bwyd, ac yn dilyn hyn, mae bellach wedi dechrau cynnal peilot o drefn casglu gwastraff bwyd yn wythnosol o gartrefi.

138 Mae'r gwastraff domestig sy'n mynd i'w dirlenwi wedi lleihau, ac mae'r gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu'i gompostio wedi cynyddu. Mae cyfleusterau ailgylchu'r Cyngor ar gyfer y cyhoedd yn dda. Mae'r cyfraddau ailgylchu yn agos at y cyfartaledd ar gyfer cynghorau yng Nghymru.

139 Adrodda'r Cyngor fod ei holl gamau gweithredu yn mynd rhagddynt ar y trywydd iawn. Mae wedi meithrin cysylltiadau cryfach gydag ysgolion, wedi cyflwyno trefn gasglu gwastraff bwyd a chardfwrdd fesul cam, ac wedi cynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, mae nifer lai nag a gynlluniwyd wedi defnyddio gwasanaeth gwastraff masnach y Cyngor.

**Mae cynnydd da wedi'i wneud yn yr amcan i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, er mai cymysg yw'r cynnydd o ran lleihau lefelau camddefnyddio sylweddau**

140 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid ym Mhartneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau, ac i leihau ofn troseddu. Ar gyfer 2010-11, adroddodd ei fod 'ar y trywydd iawn' i gyflawni ei amcan, er iddo adrodd erbyn canol 2011-12 ei fod ychydig 'ar ei hôl hi', yn bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn gwerthiannau alcohol uniongyrchol i bobl ifanc.

141 Gwelwyd gostyngiad o ryw 10 y cant yn y lefel ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Wrecsam rhwng 2008 a 2009, ac arhosodd ar lefel is debyg, sef 8,200 o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd yn 2010. Adroddwyd am ostyngiad pellach mewn digwyddiadau yr adroddwyd arnynt yn ystod hanner cyntaf 2011.

142 Yn ystod 2010-11, cyrhaeddodd y Cyngor ei dargedau ar gyfer y dangosyddion newydd ymyrryd a gwerthiannau alcohol a sigaréts dan oed. Yn 2011-12, mae'r Cyngor wedi adrodd am gynnydd yng ngwerthiannau alcohol i blant dan oed. Mae aelodau'r pwyllgor craffu yn parhau'n pryderu ynglŷn â hyn, ac mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i leihau gwerthiannau alcohol i blant dan oed.

143 Yn ystod 2010, adroddodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol y bu cynnydd ar draws Gogledd Cymru gyfan yng nghyfran y trigolion a oedd yn pryderu ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio cyffuriau, ac ymddygiad meddw a stwrllyd yn eu hardal. Trigolion Wrecsam oedd â'r lefel hyder uchaf fod Heddlu Gogledd Cymru'n delio â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Adroddodd y Cyngor nad oedd unrhyw arolwg o ganfyddiadau i asesu ofn troseddu yn ystod 2010-11, ond bod hyn i'w gynnal yn yr hydref 2011.

144 Mae'r Cyngor a'r heddlu yn parhau i recriwtio swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol yr heddlu. Ond ni chynhaliwyd unrhyw asesiad o'r effaith mae'r swyddi newydd hyn yn ei chael ar lefel troseddu, nag ofn troseddu.

145 Ym mis Medi 2010, y gyfradd aildroseddu o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf oedd 14.2 y cant, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 10.9 y cant. Mae hyn yn uwch nag a ragwelwyd, ac mae'r rhesymau am hyn yn cael eu hadolygu gan y gwasanaeth prawf.

146 Fodd bynnag, dylai'r Cyngor ystyried a yw'n dibynnu gormod ar ddangos allbynnau a nifer y camau mae wedi'u cymryd i ddangos cynnydd, yn lle canolbwyntio ar y buddion a'r deilliannau sydd wedi'u cyflawni mewn gwirionedd.

147 Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan bwysig hefyd yn datblygu'r Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam 2011-14 rhwng Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint.

## Mae amser ac adnoddau helaeth yn cael eu defnyddio i fonitro perfformiad, ond nid yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth i gynorthwyo hunanasesu a rheoli perfformiad

**Er bod y broses asesu perfformiad yn fanwl ac yn agored, nid yw'n ddigon cytbwys nac yn canolbwyntio digon ar gyflawni deilliannau**

148 Yn 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol, er bod y Cyngor wedi pennu cyfres o flaenoriaethau a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni deilliannau gwell i ddinasyddion, i rai o'r blaenoriaethau, nid oedd mesurau llwyddiant wedi'u pennu ar gyfer mesur llwyddiant yn eu herbyn. Er bod y Cyngor wedi ymgymryd â gwaith i wella'r dangosyddion yn ystod 2011, mae diffyg cyfres gyflawn o fesurau llwyddiant wedi cyfyngu ar allu'r Cyngor i asesu ei gynnydd yn erbyn nifer o'r blaenoriaethau.

149 Er nad yw'r Cyngor yn gallu monitro'r deilliannau o rai o'i flaenoriaethau, mae'n mynd ati i fonitro'r cynnydd o ran cyflawni ei gynlluniau a'i berfformiad yn erbyn y dangosyddion mae wedi'u dewis a Dangosyddion Strategol Cenedlaethol. Mae'r adroddiadau yn erbyn y camau gweithredu a'r dangosyddion yn fanwl ac yn dilyn proses lle mae adroddiadau perfformiad yn destun her, yn cael eu cytuno gan yr aelod arweiniol, yn cael eu cylchredeg i aelodau'r pwyllgorau craffu ar gyfer adborth, yn cael eu hystyried gan bwyllgor craffu, ac yna'u hadrodd i'r Bwrdd Gweithredol gyda sylwadau gan y bwrdd craffu. Heblaw am yr adroddiadau manwl, gofynnir i aelodau etholedig hefyd i gyfeirio at adroddiadau a data ychwanegol sy'n cael eu cadw ar system fewnrwyd y Cyngor.

150 Fel yr adroddwyd y llynedd, mae hon yn broses hir a thrafferthus. Fe gymerodd dri mis i'r adroddiadau perfformiad o fis Ebrill i fis Mehefin 2011 gael eu hystyried gan y pwyllgor craffu a'r Bwrdd Gweithredol. Mae hyn yn lleihau gallu aelodau etholedig i ddefnyddio'r wybodaeth i wneud newidiadau amserol er mwyn mynd i'r afael â pherfformiad gwael yn ystod y flwyddyn.

151 Mae llawer o adroddiadau perfformiad yn nodi cynnydd yn erbyn targedau, ond fe nodom yn flaenorol nad oes ymagwedd gyson at osod targedau. Mae rhai targedau'n heriol, tra bod targedau eraill yn cael eu gosod ar lefelau islaw'r perfformiad presennol. Mae hyn yn arwain at adrodd yn gadarnhaol am rywfaint o berfformiad am fod y targedau'n cael eu bodloni, pan fo'r perfformiad gwirioneddol yn dirywio efallai. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw gynnydd o ran datblygu ymagwedd glir a chyson.

152 Er bod aelodau arweiniol yn gysylltiedig â chynnig sylwadau ar yr adroddiadau perfformiad, cyflwynir yr adroddiadau i'r pwyllgor craffu gan swyddogion, a chyn bod y Bwrdd Gweithredol wedi ystyried y wybodaeth. Mae hyn yn lleihau gallu'r broses graffu ddal y Bwrdd Gweithredol i gyfrif.

153 Mae adrodd yn cynnwys darparu 'statws' ar gyfer cynnydd ar amcanion, is-amcanion a meysydd gwasanaeth. Disgrifir y statws hwn fel statws sydd 'ar y trywydd iawn', 'ychydig ar ei hôl hi' neu 'ar ei hôl hi'. Er y rhoddir y statws o dan bennawd 'deilliant', fel arfer mae'n ymwneud â chynnydd o ran cyflawni cynlluniau. Mewn rhai achosion, canfuom fod y statws a roddwyd yn rhy gadarnhaol.

154 Mae'r cynigion ar gyfer Fframwaith Cynllun y Cyngor yn y dyfodol a gyflwynwyd gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Rhagfyr 2011, yn nodi'r angen i boblogi'r fframwaith rheoli perfformiad gyda mesurau deilliannau, camau gweithredu gwella, a mesurau cynnydd. Os gwneir hyn ar ddechrau'r cynllun cyngor pedair blynedd newydd sydd wedi'i gynllunio, mae ganddo'r potensial i wella gallu'r Cyngor i hunanasesu a rheoli'i berfformiad.

**Mae asesiad cyhoeddedig y Cyngor o'i berfformiad yn 2010-11 yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion, ond mae gwendidau sylweddol yn lleihau ei effeithiolrwydd**

155 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei adroddiad *Cynllun y Cyngor - Rhan 3 'Ffocws ar ein Perfformiad' 2010 i 2011* i fodloni gofynion y Mesur. Bwriad y ddeddfwriaeth yw i gynghorau gyhoeddi asesiad cadarn o'u perfformiad ar ffurf y gall dinasyddion ei ddarllen a'i ddeall.

156 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu fod yr awdurdod wedi cyflawni pob un o'i ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7) y Mesur. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu'n fwy unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru: yn benodol:

- sicrhau bod yr adroddiad yn rhoi darlun teg a chytbwys o berfformiad;
- sicrhau bod y sail resymegol ar gyfer cymharu â chynghorau eraill yn glir;
- nodi a yw achosion o gydweithio wedi cyflawni'u hamcanion bwriadedig; a
- sicrhau bod yr adroddiad ar gael yn hwylus i bob cynulleidfa erbyn 31 Hydref, gan gynnwys y fersiwn iaith Gymraeg, yn unol â pholisi iaith Gymraeg y Cyngor.

157 Cyhoeddwyd yr adroddiad cyn y dyddiad gofynnol, ac mae'n cyflawni'r gofynion ar gyfer:

- cynnwys perfformiad yn erbyn Dangosyddion Strategol Cenedlaethol;
- defnyddio tystiolaeth ehangach na dangosyddion perfformiad yn unig; a
- gwahodd sylwadau ac awgrymiadau gan ddinasyddion a phartneriaid.

158 Canfuom fod yr asesiad yn wannach lle nad oes mesurau llwyddiant addas gan y Cyngor ar gyfer ei amcanion gwella, fel y nodwyd uchod. Er bod yr adroddiad yn defnyddio cynnydd yn erbyn camau gweithredu, dangosyddion perfformiad a gwybodaeth arall, nid yw'n cynnwys gwybodaeth ddisgwyliedig gan reoleiddwyr ac arolygwyr neu ffynonellau allanol eraill. Nid yw'n cyfeirio at adroddiad arolygiad Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, nid yw'n defnyddio'r asesiadau cyffredinol gan *Adolygiad Ariannol gan Gymheiriaid* CLILC, ac mae'n defnyddio sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru ar amcanion penodol, ond nid sylwadau cyffredinol am y Cyngor.

159 Mae perfformiad Wrecsam ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn cynnwys gwybodaeth am dueddiadau a chymhariaeth â chynghorau eraill yng Nghymru. Ond, mewn mannau eraill, defnydd cyfyngedig a detholus a wneir o wybodaeth gymharu heb unrhyw sail resymegol am hyn.

160 Mae'r adroddiad yn disgrifio ymgysylltiad y Cyngor mewn cydweithrediad â chynghorau eraill a phartneriaid, ond nid yw'n rhoi unrhyw wybodaeth am y deilliannau o'r cyfryw gydweithredu.

161 Fel y nodwyd uchod, disgrifir yr asesiad ar gyfer amcanion gwella penodol o dan y pennawd 'deilliannau', ond mae hyn yn gamarweiniol yn aml am fod y wybodaeth yn ymwneud â chamau gweithredu yn hytrach na deilliannau. Mae rhywfaint o'r data a ddefnyddiwyd yn amrywio o hynny a ddefnyddiwyd mewn dogfennau eraill, yn wahanol i hynny a ddefnyddiwyd gan bartneriaid neu'n anodd ei gysoni.

162 Mae'r gwendidau yn sgil peidio â defnyddio gwybodaeth sydd ar gael gan Estyn ac adroddiadau eraill, darparu cymariaethau anghyson â chynghorau eraill a chyfeiriadau camarweiniol at ddeilliannau, yn gwanhau'r graddau y mae'r adroddiad yn cyflwyno darlun cywir a chytbwys o berfformiad.


163 Nid oedd y fersiynau Cymraeg o'r adroddiad a'r crynodeb ar gael erbyn 31 Hydref, ac er bod rhai copïau o'r adroddiad wedi'u rhoi yn swyddfeydd y cyngor, ac er bod cyfeiriad byr ato yng nghylchgrawn y Cyngor, nid yw wedi mynd ati'n fwriadol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r adroddiad.

**Nodwyd gwendidau yng nghywirdeb rhywfaint o ddata**

164 Mae monitro a rheoli perfformiad yn mynnu bod gwybodaeth gywir am berfformiad ar gael. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad o'r data ar gyfer Dangosyddion Strategol Cenedlaethol 2010-11, a grŵp bach o Ddangosyddion Perfformiad Lleol. Daethom i'r casgliad fod y Cyngor yn gyffredinol wedi rhoi systemau digonol ar waith i gynhyrchu Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Dangosyddion Perfformiad Lleol 2010-11. Fodd bynnag, roedd yn ofynnol ail-gyfrifo naw o'r 25 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol am i ni sylwi ar rywfaint o ddefnydd o ddiffiniadau anghywir, ac adroddom am amheuon ynglŷn â'r data terfynol ar gyfer tri Dangosydd Strategol Cenedlaethol.

165 Tra bod mwyafrif y data'n foddhaol, bu'n rhaid ail-gyfrifo traean o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol neu roeddent yn amodol. Mae hyn yn awgrymu fod angen gwneud mwy i roi sicrwydd bod y data a ddefnyddir i helpu rheoli ac asesu perfformiad yn ddata cadarn.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol, ac i gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19 i gyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 a datgan a ydyw, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, o'r farn fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad blaengar o ba mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ynglŷn â sut lwyddodd yr awdurdod i wella. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol am hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad amdanynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Wrecsam a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Y Cyngor

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gwario oddeutu £264 miliwn y flwyddyn (2011-12). Mae hyn yn gyfwerth â rhyw £1,977 fesul preswylydd. Yn yr un flwyddyn, fe wnaeth y Cyngor gynllunio hefyd i wario £60.5 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn 2010-11 ar gyfer Wrecsam oedd £1,101 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.17 y cant i £1,135 y flwyddyn ar gyfer 2011-12. Mae lefel y dreth gyngor 2.3 y cant yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef £1,162. Mae 72 y cant o'r anheddau yn Wrecsam ym mandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 52 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 13 o'r Grŵp Llafur
- 11 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol/Y Gynghrair Annibynnol
- 8 o Grŵp Annibynnol Wrecsam
- 7 o'r Grŵp Annibynnol Democrataidd
- 5 o Grŵp y Ceidwadwyr
- 4 o'r Grŵp Annibynnol
- 3 o Grŵp Plaid Cymru
- 1 Amhleidiol

Mae Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn cynnwys 10 aelod gyda chynrychiolaeth gytbwys o'r pleidiau. Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Ron Davies.

Prif Weithredwr y Cyngor yw Dr Helen Paterson ac mae ei thîm rheolwyr yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Clare Field
- Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Lee Robinson
- Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Philip Walton

## Gwybodaeth arall

Yr Aelodau Cynulliad Etholaethol ar gyfer yr ardal yw:

- Lesley Griffiths, Wrecsam, Y Blaid Lafur
- Ken Skates, De Clwyd, Y Blaid Lafur

Yr Aelodau Cynulliad Rhanbarthol yw:

- Llŷr Huws Gruffydd, Plaid Cymru
- Mark Isherwood, Plaid Geidwadol Cymru
- Aled Roberts, Plaid Ryddfrydol Cymru
- Antoinette Sandbach, Blaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol ar gyfer yr ardal yw:

- Ian Lucas, Wrecsam, Y Blaid Lafur
- Susan Elan Jones, De Clwyd, Y Blaid Lafur

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.wrecsam.gov.uk neu cysylltwch â’r Cyngor yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1AY.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Fe wnaeth yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi'r llythyr archwilydd canlynol ar 18 Tachwedd 2011.

## Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Fel y byddwch yn gwybod, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012, a bydd rhai o'r materion yr adroddwyd amdanynt yn draddodiadol yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi cymryd y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol fel Archwilydd Penodedig yn y llythyr byr hwn, sef y Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriadwyd i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol ond fe'i cyflwynir hefyd i'r Cyngor ac i'r cyhoedd fel rhan o'r Cynllun Gwella Blynyddol, ac felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiad ariannol a defnyddio adnoddau

**1** Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**2** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

3 Ar 30 Medi 2011 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor. Cynhwysir f'adroddiad yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd nifer o faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd i aelodau yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol, a bydd manylion pellach yn cael eu hadrodd yn ein hadroddiad manwl yn dilyn maes o law.

4 O 2010-11 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio'u cyfrifon ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Yn sgil cyflwyno'r safonau newydd hyn gosodwyd gofynion ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor. Er hyn, paratowyd y datganiadau ariannol i safon dda yn gyffredinol erbyn y terfyn amser statudol, gan adlewyrchu'r gwaith helaeth iawn a wnaed gan staff y tîm cyllid i'w paratoi ar sail IFRS am y tro cyntaf.

5 Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth ariannol gref a gefnogir gan drefniadau rheoli cyllideb effeithiol. Mae cynllunio ariannol tymor canolig yn dal i ddatblygu, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.
- Mae gwelliannau wedi'u gwneud o fewn y swyddogaeth Archwilio Mewnol, a nododd ein hasesiad blynyddol y llwyddwyd i fodloni deg o un ar ddeg o safonau CIPFA.

6 Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2011.

7 Mae ffi'r archwiliad ariannol ar gyfer 2010-11 yn agos at hynny a bennwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol. O gofio effaith IFRS ar Eiddo, Peiriannau ac Offer a chymhlethdod y materion hyn, bydd y ffi derfynol yn cynnwys swm ychwanegol o £6,622 gan i'm tîm ymgymryd â gwaith ychwanegol i sicrhau y cafwyd gwybodaeth ddigonol i gefnogi cofnodion yn y datganiadau ariannol.

John Herniman

Cyfarwyddwr Grŵp – Archwilio Ariannol

Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

18 Tachwedd 2011

cc Dr. Helen Paterson, Prif Weithredwr

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun y Cyngor – Rhan 2 'Pennu Ein Targedau' 2010 i 2011 y gellir ei weld ar wefan y Cyngor yn http://www.wrecsam.gov.uk. Mae'r amcanion wedi aros yr un fath fwy neu lai am gyfnod Cynllun y Cyngor – Rhan 1 *'Diffinio ein Cyfeiriad'* 2009 i 2012. Yr amcanion yw:

Tair blaenoriaeth y cyngor, sef:

- helpu cynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol;
- helpu pobl i gael addysg well a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflogaeth; a
- lleihau faint o ynni a ddefnyddir a lleihau allyriadau carbon.

Mae gan y Cyngor gyfres o 'flaenoriaethau gwella' hefyd. Mae'r rhain yn ymwneud â meysydd o strategaethau a chynlluniau presennol lle mae'r Cyngor eisiau i welliannau mawr ddigwydd. Mae wyth o 'flaenoriaethau gwella', ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

- helpu pobl hyn i fyw'n annibynnol;
- helpu pobl i fwyta deiet iachach a bod yn fwy gweithgar;
- ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'i wasanaethau, a hefyd gofyn i'r cyhoedd sut gellid gwella'i wasanaethau;
- hyrwyddo cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, a'r Cyngor yn hyrwyddo diwylliant Cymru;
- lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau, a helpu gwella'r canfyddiadau o droseddu;
- lleihau gwastraff trwy gynyddu'r gyfradd ailgylchu;
- cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid; a
- gwella diogelu plant (ychwanegwyd ar gyfer y flwyddyn 2010-11).

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ei G*ynllun y Cyngor - Rhan 3 'Ffocws ar ein Perfformiad' 2010 i 2011* sydd ar gael ar wefan Cyngor hefyd yn: http://www.wrecsam.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk